# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Mehefin 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

### 1 Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE: Canfyddiadau yn sgil gwaith ymgysylltu

(09.20-09.30) (Tudalennau 1 - 15)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cryno o'r gwaith ymgysylltu

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-13.35)

### 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

### 3 Papurau i'w nodi

(09.30)

**3.1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi: Cwblhau Prentisiaethau**

(Tudalen 16)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi at Luke Fletcher AS - 12 Mai 2023 [Saesneg yn unig]

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.2 Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Fframweithiau Cyffredin**

(Tudalen 17)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 12 Mai 2023

**3.3 Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027**

(Tudalennau 18 - 22)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 12 Mai 2023

**3.4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)**

(Tudalennau 23 - 27)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Prif Weinidog – 15 Mai 2023

**3.5 Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE: Y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

(Tudalennau 28 - 29)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cynghorydd Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 4 Mai – 15 Mai 2023 [Saesneg yn unig]

**3.6 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Y Flaenraglen Waith**

(Tudalennau 30 - 35)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Climate Cymru – 16 Mai 2023 [Dogfen ddwyieithog]

Llythyr gan y Cadeirydd at Climate Cymru – 22 Mai 2023

**3.7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 36)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 17 Mai 2023

**3.8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

(Tudalennau 37 – 38)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes – 18 Mai 2023

**3.9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig**

(Tudalennau 39 – 45)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – 18 Mai 2023

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – 26 Mai 2023

Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 1 Mehefin 2023

**3.10 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

(Tudalen 46)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi – 18 Mai 2023

**3.11 Ymchwiliad y Pwyllgor i gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE**

(Tudalennau 47 - 49)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gyngres yr Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru) - 19 Mai

Llythyr gan y Cadeirydd at Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru (UCU Cymru) - 19 Mai 2023

Llythyr gan y Cadeirydd at UNSAIN Cymru - 19 Mai

**3.12 Bil Bwyd (Cymru): Adroddiadau Cyfnod 1**

(Tudalennau 50 - 70)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil, i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - 19 Mai 2023

Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil, i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 19 Mai 2023

Ymateb gan Peter Fox AS, yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil, i adroddiad Pwyllgor Cyllid - 19 Mai 2023

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - methiant y Bil Bwyd (Cymru) - 31 Mai 2023

**3.13 Adolygiad ynghylch Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 71 - 73)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - 25 Mai 2023

**3.14 Bridwyr hadau indrawn porthiant**

(Tudalennau 74 - 76)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Dr Julian Little, Cymrawd y Gymdeithas Fioleg Frenhinol - 15 Mai 2023 [Saesneg yn unig]

**3.15 Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023 (Gorchymyn 2023)**

(Tudalennau 77 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd - 26 Mai 2023

**3.16 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu**

(Tudalen 80)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - 26 Mai 2023

## 4 Cyllid datblygu rhanbarthol wedi’r UE: Gweinidog yr Economi

(09.30-10.30) (Tudalennau 81 - 119)

Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi
Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru
Aine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Trawsnewid Diwydiannol ac Economi Sylfaenol, Llywodraeth Cymru
Peter Ryland, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru
Briff Ymchwil
Crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig

## 5 Gweithgynhyrchu yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 1 – Gweinidog yr Economi

(10.30-11.00) (Tudalennau 120 - 153)

Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi
Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru
Aine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Trawsnewid Diwydiannol ac Economi Sylfaenol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**
Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru
Briff Ymchwil

**Egwyl (10.30–10.45)**

## 6 Gweithgynhyrchu yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 2

(11.15–12.30)

Dr Llyr ap Gareth, Pennaeth Polisi (Cymru), Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Janis Richards, Cyfarwyddwr Aelodaeth – Cymru, MakeUK
Yr Athro David Pickernell, Polisi Datblygu Busnesau Bach a Menter, Prifysgol Abertawe
Mary Williams, Swyddog Gwleidyddol, Uno'r Undeb Cymru

**Egwyl (12.30–12.35)**

## 7 Gweithgynhyrchu yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 3

(12.35–13.35)

Yr Athro Keith Ridgway – Cadeirydd, Diwydiant Cymru, ac Uwch Weithredwr, Gweithgynhyrchu, Prifysgol Strathclyde
David Hoare, Uwch-arweinydd Cyfathrebu a Chydymffurfiaeth Safle (Cymru), GE Aerospace

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.35)

**Preifat (13.35–14.00)**

## 9 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(13.35–13.45)

## 10 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(13.45-14.00) (Tudalennau 154 - 157)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen Waith – Tymor yr hydref 2023 [Saesneg yn unig]

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/0138/23

Luke Fletcher MS
Welsh Parliament

12 May 2023

Dear Luke,

Further to your question in the Senedd on 26 April concerning apprenticeship completions, I am happy to provide additional information.

Our pre-pandemic success (completion) rates were very positive at 80.9%, a level which compared extremely well with other apprenticeship programmes across the UK. It's disappointing that the pandemic has significantly impacted these success rates, falling to 66.3% [r]. Sectors such as Health, Public Services and Care; Hospitality and Catering; and Hair and Beauty were hit drastically by the pandemic, and this has followed through to our apprenticeship success rates.

The number of people leaving their apprenticeship to go into employment has increased. This may well be individuals leaving employers for higher wages and better terms and conditions elsewhere - reflecting the economic difficulties being experienced by the sectors mentioned. We are working with providers and employers to further understand why apprentices don't complete and better understand their support needs.

We have recently agreed funding of over £700,000 to support the health and wellbeing of apprenticeship learners, staff and organisations. This will help learners stay on programme to complete their apprenticeship, continuing our focus on maintaining and further developing quality provision – delivering more successful outcomes in future.

I am copying this letter to the Economy, Trade and Rural Affairs Committee.

Yours sincerely,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth

12 Mai 2023

Annwyl Gadeiryddion

Fel y gwyddoch, mae fy Mhwyllgor wedi bod yn cynnal trosolwg o raglen Fframweithiau Cyffredin y DU tra bod eich priod bwyllgorau – a phwyllgorau seneddol eraill yn y DU – wedi bod yn cynnal gwaith craffu ar fframweithiau unigol.

Yn ddiweddar, gwnaethom gytuno i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â materion trawsbynciol sy'n deillio o'r gwaith craffu hwn. Rydym wedi gosod ein hadroddiad heddiw, ac mae'n cynnwys yr argymhellion hyn.

At hynny, rydym wedi ceisio dadl yn y Cyfarfod Llawn, er mwyn nodi'r adroddiad, ddydd Mercher 12 Gorffennaf 2023. Hyderaf y bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i chi – ac aelodau eich pwyllgorau – i dynnu sylw at faterion wnaeth ddod i'r amlwg yn sgil eich gwaith craffu ar fframweithiau cyffredin unigol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Eitem 3.3

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

12 Mai 2023

Annwyl Paul,

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 24 Ebrill 2023, trafodwyd y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027. Mae'r cytundeb hwn yn darparu mecanwaith i'r DU, Iwerddon a'r UE ariannu PEACE PLUS ar y cyd, rhaglen ariannu heddwch trawsffiniol yr UE. Bydd y cytundeb rhyngwladol hwn yn llywodraethu'r broses o weithredu rhaglen PEACE PLUS a chyfraniadau'r partïon.

Wrth drafod y cytundeb, gwnaethom gytuno i dynnu sylw eich Pwyllgor ato er mwyn llywio ei ymchwiliad i gyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE. At hynny, gwnaethom gytuno i dynnu sylw'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Cyllid, at y cytundeb hwn gan fod y pwyllgorau hyn wedi gwneud gwaith ar drefniadau ariannu'r UE ar ôl Brexit hefyd, neu eu bod wrthi'n gwneud gwaith ar y trefniadau hyn.

Atodir ein hadroddiad diweddaraf er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 24 Ebrill 2023

Mai 2023

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am gynnal gwaith craffu yn y Chweched Senedd ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:

- A yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 24 Ebrill 2023[1] gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027
- DU-INTERPOL: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU

**6.** Cytunwyd i gymryd camau pellach mewn perthynas ag un o'r cytundebau. Mae manylion pob un o'r cytundebau a'n camau gweithredu priodol wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Ebrill 2023

# 2. Cytundeb y mae angen gweithredu pellach yn ei gylch

**Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 24 Mawrth 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 18 Mai 2023.

**8.** Mae'r cytundeb hwn yn darparu mecanwaith i'r DU, Iwerddon a'r UE barhau i gyd-ariannu gweithgareddau trawsffiniol sy'n hyrwyddo heddwch a chymod, a chyfrannu at ddatblygiad economaidd a thiriogaethol trawsffiniol rhanbarth y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon ar ôl Brexit.

**9.** Cyn gadael yr UE, ymrwymodd y DU i barhau i ariannu PEACE PLUS – sef rhaglen ariannu heddwch trawsffiniol yr UE – ynghyd â Gogledd Iwerddon, Iwerddon a'r UE. Bydd y cytundeb rhyngwladol hwn yn llywodraethu'r broses o roi rhaglen PEACE PLUS ar waith, ynghyd â chyfraniadau'r partïon.

**10.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol sy'n fater a gadwyd yn ôl at ddibenion Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae 'cysylltiadau rhyngwladol' yn cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU a chysylltiadau â'r UE a'i sefydliadau.

**11.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn cyfeirio at ddatganoli; fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod Adran Gyllid Gogledd Iwerddon wedi'i chynnwys yn y broses o drafod y Cytuniad a bod testun drafft wedi'i rannu cyn ei lofnodi.[2]

**12.** Gan fod y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i gyd wedi cynnal – neu wrthi'n cynnal – gwaith ar drefniadau ariannu'r UE ar ôl Brexit, cytunwyd i dynnu sylw'r pwyllgorau hyn, sy'n bwyllgorau'r Senedd, at y cytundeb hwn.

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm esboniadol: Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027, Mawrth 2023, paragraff 10.1 (Saesneg yn unig)

# Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

**DU-INTERPOL: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU**

**13.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 24 Mawrth 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 18 Mai 2023.

**14.** Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu breintiau ac imiwneddau penodol i sefydliad rhyngwladol yr heddlu troseddol (sef INTERPOL), ei swyddogion a chynrychiolwyr o'r gwledydd, sy'n cwmpasu eu gweithgareddau yn y DU. Mae hyn yn ofyniad ar y DU i gynnal Cynulliad Cyffredinol INTERPOL 2024, fodd bynnag, bwriedir i'r cytundeb hwn hefyd ddarparu fframwaith hirdymor i lywodraethu breintiau ac imiwneddau INTERPOL yn y DU.

**15.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol sy'n fater a gadwyd yn ôl at ddibenion Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae 'cysylltiadau rhyngwladol' yn cynnwys cysylltiadau â sefydliadau rhyngwladol megis INTERPOL.

**16.** Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*In light of the operational impacts of such privileges and immunities on matters that may be devolved such as justice or policing, the UK Government consulted the Devolved Administrations.*"[3]

**17.** Gan nad yw cyfiawnder a phlismona wedi'u datganoli yng Nghymru, mae hyn yn awgrymu mai dim ond Llywodraeth yr Alban yr ymgynghorwyd â hi, gan fod y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth yr Alban yn paratoi ail Orchymyn – a Gorchymyn cyfochrog – yn y Cyfrin Gyngor i Lywodraeth y DU.[4]

**18.** Gan na fydd effeithiau gweithredol breintiau ac imiwneddau o'r fath yn effeithio ar feysydd datganoledig yn yr un modd yng Nghymru ag y byddant yn yr Alban, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

---

[3] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU, Mawrth 2023, paragraff 10.2 (Saesneg yn unig)
[4] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU, Mawrth 2023, paragraff 10.3 (Saesneg yn unig)

Eitem 3.4

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**–**

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**–**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

15 Mai 2023

Annwyl Mark,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Yn ein cyfarfod ar 9 Mai 2023, gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) (y Memorandwm) am y tro cyntaf.

Mae gennym nifer o gwestiynau i'w gofyn i chi, a fydd yn ein helpu i lywio ein hadroddiad i'r Senedd ar y Memorandwm.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 1 Mehefin 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan y gallai'r materion hyn fod yn berthnasol i'w gwaith.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cymal 54 (Pŵer awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth i berson cofrestredig) a chymal 56 (Cod ymarfer ynghylch datgelu gwybodaeth)

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 54 a 56 o'r Bil, gan fod y cymalau hyn yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ym marn Llywodraeth y DU. Nodwn y farn a fynegwyd gennych fod dehongliad Llywodraeth y DU o 'wasanaethau rhyngrwyd', sy'n fater a gadwyd yn ôl, yn "eithriadol o eang", a bod y cymalau hyn yn ymwneud â materion datganoledig yn eich barn chi, sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes, a'u bod felly yn ddarpariaethau perthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29.

Cwestiwn 1: Os yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cymalau 54 a 56 yn ymwneud â meysydd datganoledig – sef gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes – a allwch egluro pam na ddylid hefyd ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau eraill o sylwedd yn Rhan 2 o'r Bil (cymalau 46 i 60)?

Cwestiwn 2: Yn benodol mewn perthynas â chymal 56, ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig Cod Ymarfer ar lefel y DU, ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

Cymalau 61 i 77 (Rhan 3, Data am Gwsmeriaid a Data am Fusnesau)

Mae cymalau 61 i 77 o'r Bil yn darparu pwerau dirprwyedig amrywiol i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Trysorlys.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 42 o'r Memorandwm, rydych yn nodi bod angen ystyried ymhellach oblygiadau datganoledig y pwerau gwneud rheoliadau yng nghymalau 61 i 77 ac y byddwch yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf maes o law. A ydych mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd erbyn hyn?

Cymal 92 (Datgelu gwybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i ymgymeriadau)

Byddwch yn ymwybodol bod y cymal hwn yn diwygio adran 35 o *Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017* (Deddf 2017) i alluogi cyrff i rannu gwybodaeth i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus i fusnesau, gan ehangu'r trefniant presennol sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig rannu gwybodaeth er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well i unigolion ac aelwydydd. Rhestrir y personau penodedig ("specified persons") yn Atodlen 4 i Ddeddf 2017 ac maent yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig amrywiol ("Welsh Bodies"). Mae adran 35 o Ddeddf 2017 yn caniatáu i'r awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") wneud rheoliadau i

ychwanegu personau penodedig ac amcanion penodedig (“specified objectives”). Mae’r awdurdod cenedlaethol priodol yn cynnwys Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r diwygiadau a wnaed gan gymal 92 o'r Bil i adran 35 o Ddeddf 2017 yn ymestyn pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes (pŵer Harri VIII) sy’n arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, drwy ychwanegu'r gair "undertakings" (sef ymgymeriadau, h.y. busnesau a chyrff elusennol) ochr yn ochr ag unigolion ac aelwydydd. Er enghraifft, byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i osod amcan penodedig â’r diben, yn ddarostyngedig i amodau eraill o dan adran 35, o wella gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir i ymgymeriadau. Yn flaenorol, byddai cwmpas y pŵer hwn wedi'i gyfyngu i wella gwasanaeth cyhoeddus i unigolion ac aelwydydd.

Cwestiwn 4: A wnewch chi gadarnhau ein bod wedi deall y safbwynt yn gywir a bod y gwelliannau a wnaed gan gymal 92 yn ymestyn pŵer Harri'r VIII sy'n bodoli eisoes sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, ac a wnewch chi egluro pam mae’r wybodaeth hon wedi ei hepgor o'r Memorandwm.

Cymal 93 (Rhoi cytundebau rhannu gwybodaeth at ddiben gorfodi’r gyfraith ar waith)

Byddwch yn ymwybodol bod cymal 93 yn rhoi pŵer dirprwyedig i'r Ysgrifennydd Gwladol weithredu, drwy reoliadau, gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

Yn y Memorandwm, rydych yn nodi y dylid rhoi pwerau priodol i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau at ddiben rhoi cytundeb rhyngwladol ar rannu gwybodaeth ar waith ar gyfer agweddau gorfodi'r gyfraith sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, a bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU.

Cwestiwn 5:

a) A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hyn?

b) Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y materion a gadwyd yn ôl a’r materion datganoledig yn y maes hwn?

c) A allwch roi enghraifft o sut y gallai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a/neu gyrff cyhoeddus datganoledig gyflawni cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93?

ch) A ydych chi'n ymwybodol o gytundebau rhyngwladol sydd ar y gweill a fyddai'n cael eu gweithredu drwy bwerau'r Bil?

d) Gwnaethom fynegi pryderon pan roeddem yn craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal ynghylch y drefn o ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i roi cytundebau gofal iechyd rhyngwladol ar waith, fel y cynigir yn y Bil hwn. Bryd hynny, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd y byddai cytundebau o'r fath yn cael eu

llywodraethu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol a gâi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Bil (cawsom fersiwn ym mis Chwefror 2022). A allwch gadarnhau a fydd trefniadau rhynglywodraethol tebyg yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 o'r Bil hwn (pan gaiff y Bil ei ddeddfu, cyhyd â bod hynny'n digwydd)? A yw hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio?

dd) Pan roeddem yn trafod Confensiwn y DU/y Swistir ar gydlynu nawdd cymdeithasol ym mis Tachwedd 2021, gwnaethoch esbonio nad oedd unrhyw ofynion newydd yn cael eu gosod ar fyrddau iechyd lleol Cymru i gyflawni'r trefniadau oddi tano. Beth yw eich barn ynghylch y graddau y gallai cytundebau rhyngwladol o dan gymal 93 ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus Cymru gyflawni gofynion ychwanegol?

Cymal 36 (Hysbysiadau cyfweliadau)

Byddwch yn ymwybodol bod cymal 36 yn mewnosod yn *Neddf Diogelu Data 2018* adran 148A newydd sy'n gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau cyfweliadau, y gellir eu defnyddio i'w gwneud yn ofynnol i berson fynychu cyfweliad ac ateb cwestiynau yn unol â dymuniadau'r Comisiynydd Gwybodaeth (y "Comisiynydd"). Nodwn, yn ymarferol, y bydd y cyfeiriad at y Comisiynydd yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at y Comisiwn Gwybodaeth sydd newydd ei ffurfio, o dan adran 102(2) o'r Bil.

At hynny, mae cymal 36 yn mewnosod adran 148B newydd, sy'n gosod cyfyngiadau penodol ar yr amgylchiadau lle gall y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i berson ateb cwestiynau o dan hysbysiad cyfweliad. Mae is-adran (9) yn rhestru cyrff na all y Comisiynydd roi hysbysiad cyfweliad iddynt, gan gynnwys: "the Office for Standards in Education, Children's Services and Skills in so far as it is a controller or processor in respect of information processed for the purposes of functions exercisable by His Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills by virtue of section 5(1)(a) of the Care Standards Act 2000." Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn ymwneud â: chofrestru cartrefi plant yn Lloegr; canolfannau preswyl i deuluoedd yn Lloegr; asiantaethau maethu yn Lloegr neu; pan fydd dwy gangen neu fwy yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth faethu, y canghennau yn Lloegr; asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol y mae eu prif swyddfa yn Lloegr, ac asiantaethau cymorth mabwysiadu yn Lloegr; neu, pan fydd dwy gangen neu fwy yn gyfrifol am weithgareddau asiantaeth cymorth mabwysiadu, y canghennau yn Lloegr.

Nid yw'r Bil yn cynnwys eithriad tebyg ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chofrestru sefydliadau ac asiantaethau tebyg yng Nghymru, gan olygu y bydd y Comisiynydd yn gallu rhoi hysbysiad cyfweliad mewn perthynas â'r materion hynny yng Nghymru ond nid yn Lloegr.

Cwestiwn 6:

a) A wnewch chi egluro a yw Llywodraeth Cymru yn dymuno ac yn ffafrio'r sefyllfa hon?

b) A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y ffordd y mae cymal 36 wedi'i ddrafftio a'i effaith yng Nghymru?

Materion eraill

Yn y Memorandwm, rydych yn amlinellu amryw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r Bil yn ei gyfanrwydd. Yn benodol, ym mharagraff 34, rydych yn egluro bod yna bryderon bod "cyflwyno'r Bil yn creu risg i benderfyniad digonolrwydd presennol y DU, a roddwyd ym mis Mehefin 2021 gan yr UE am gyfnod o 4 blynedd i ddechrau. Mae'r posibilrwydd o golli penderfyniad digonolrwydd data'r UE yn bryder arbennig o safbwynt masnach gan y byddai hyn yn fygythiad mawr i fusnesau sy'n allforio o Gymru, sydd â'u prif farchnad dramor yn yr UE o hyd."

Cwestiwn 7:

a) A ydych yn gallu ehangu ar y goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd hwnnw gan yr UE yn cael ei golli?

b) Os bydd y Bil yn pasio ar ei ffurf bresennol, beth yw eich barn am ei effaith ar benderfyniad digonolrwydd yr UE?

c) Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn?

Eitem 3.5

Dyddiad/Date: 15 May 2022

Thank you for your letter of 9th May 2023.

I think it is fair to say that the requirements on lead authorities in Wales are more complex than for many parts of the UK, given the need to co-ordinate across a number of individual councils on a regional level.

To date the key challenges faced by Rhondda Cynon Tac CBC as lead local authority for the South East can be summarised as follows:

- The delayed approval of the regional investment plan caused inevitable delays to the start of the programme and the ability to spend the Year 1 allocation.

- There has been uncertainty regarding the carry forward of funding between financial years therefore making forward planning extremely difficult.

- Although now confirmed that requests for carry forward of funds from Year 1 into Year 2 will be considered, the timescale for determining the outcome of the requests and the subsequent issuing of grant determination letters for the Year 2 allocations is unknown.

- Clarification regarding the ability to adopt flexibility in the use of the Multiply funding has been an ongoing issue. Some flexibility has now been applied to the Year 1 underspend, but restrictions still apply to the Years 2 and 3 allocations where the funding is ring-fenced for the sole use of Multiply. Without ongoing flexibility, full spend within the limited programme period is challenging.

- The limited programme period of three years, further condensed by the delayed approval, makes planning and delivery of local economic interventions much more challenging.

It is however worth noting that these are common challenges faced by each of the four Welsh Regions and at all times and in collaboration with the WLGA we have conveyed consistent messages to UK Government.

Despite delays in decision making within the UK Government and the Treasury, officials from the four lead authorities and WLGA have met regularly with officers from DLUHC which has proved beneficial.

Direct written representation has also been made to Secretary of State for Levelling up, Housing and Communities by me as WLGA Leader and Councillor Rob Stewart, Deputy Leader WLGA and in our roles as Leaders of two of the four lead local authorities for the Shared Prosperity Fund in Wales – Rhondda Cynon Taf and Swansea.

Notwithstanding such challenges, I would like to highlight that there are very positive aspects of the UKSPF programme including, the localised agenda and the ability for Councils and their partners to identify local needs and opportunities and to tackle complex challenges facing our communities is most welcomed. We are already delivering significant levels of SPF activity and positive outcomes through projects in South East Wales with our SPF Regional Investment Plan.

Also, the fact that the programme has been wholly allocated by formula, rather than competitive bidding, again ensuring that funding is delivered where the need is greatest, and maximum benefit can be derived.

I hope this provides some further context for the Economy, Trade and Rural Affairs Committee inquiry into post EU funding, but should you wish to discuss further please do not hesitate to get in touch.

Yours sincerely

A. Morgan

**Y Cynghorydd Andrew Morgan**
**Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
Councillor Andrew Morgan
Leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council

**Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Office**
Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX
The Pavilions, Clydach Vale, Tonypandy CF40 2XX

Ffôn/Tel: 01443 424065
E-bost/Email: Cabinet@rctcbc.gov.uk
Rhyngwladol/International: +44 1443 424065/6

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection




16.05.23

Dear Paul Davies MS, Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee,

**Future work programme of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

We are writing on behalf of Climate Cymru, a partner organisation of over 4,000 partner organisations and 13,000 individuals, as we understand that you are considering the future work programme of your committee in the next few sessions.

We wish for you to consider carrying out work in the following areas. We would also like to inform you that our partner network includes specialists in climate change, housing, renewable energy and community development, therefore should you wish to utilise our resources in any way, visit schemes that our partners administer, we would be more than happy to facilitate this.

We wish for you to carry out an inquiry on the possibility of devolving the Crown Estate to Wales. The Estate recently confirmed six new offshore wind energy lease agreements, worth an estimated £1 billion. The Keeper of the Privy Purse has written to the Prime Minister and Chancellor to share the King's wish that this windfall be directed for wider public good, rather than to the Sovereign Grant, through an appropriate reduction in the proportion of Crown Estate surplus that funds the Grant. One of the 6 projects will be located off the North Wales coast, and is an opportunity for offshore wind to support and help grow the Welsh economy. Management of the Crown Estate in Wales is reserved, yet in Scotland, the management has been devolved to the Scottish Government since 2017. There is growing support for the Welsh Government to receive the same powers as Scotland so that we can benefit directly from the economic opportunities presented by the potential renewable energy production in question. We believe that the Committee should explore this matter, with a view to understanding how devolution in this area could better aid our economy.

We also wish for the committee to consider carrying out a piece of work on the announcement by the Welsh Government in October 2022 to launch a publicly owned renewable energy developer. The Climate Change Minister has said energy profits created in Wales will deliver greater benefits for people in Wales, and that surplus funds generated through the new developer will go back into the public purse to be reinvested in improving energy efficiency in homes in Wales and creating good quality, home grown, clean energy jobs. However, since its announcement, we have seen very little public detail on its development. Alongside the organisation Cwmpas we have

written to the Climate Change Minister to discuss how it can be shaped, and while we have had positive engagement from civil servants, we wish for this committee to look into the matter in more detail in relation to taking evidence from civil society to understand what the people of Wales want to see happen in this regard, and comparing it to International examples where Government's run their own such energy system. How does it benefit the economy in their respective countries? How can we ensure that we implement it in Wales having learnt from best practice elsewhere?

Another area of interest that we would wish for the Committee to work on is how to ensure that we have positive benefits for communities and the people of Wales when the private sector invests in renewable energy projects in our Nation. What are the models that would work for our communities, ensuring regeneration and economic stability follows? We are sure you are aware that there are big investors currently working or seeking to put planning permission forward for development in Wales, and wish to utilise their funds to support the communities where their renewable energy infrastructure is or may be built. The question is how can we ensure that their community investment is longstanding, sustainable and is relevant to what the community actually wants? We would appreciate your work on this matter.

Nature Positive is also as relevant to this committee as it is to your colleagues on the Climate Change committee, as it crosses all areas of Government work. We are currently working with partners to seek to influence the Welsh Government to implement a Nature Positive Bill. It would help Wales  avoid another lost decade for nature by establishing a duty on Welsh Ministers to achieve a Nature Positive Wales, implemented via a framework of legally binding nature recovery targets. It would create a robust, independent environmental governance body to close the gap that has existed in Wales since the Uk left the EU. We would appreciate any views you are able to formulate on this Bill proposition.

We appreciate your time in considering our ideas, and look forward to hearing your response,

Kind Regards,

Bethan Sayed on behalf of Climate Cymru




16.05.23

Annwyl Paul Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig,

**Blaenrhaglen waith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

Rydym yn ysgrifennu ar ran Climate Cymru, sefydliad partner o dros 4,000 o sefydliadau a 13,000 o unigolion, gan ein bod yn deall eich bod yn ystyried eich blaenrhaglen waithl yn yr ychydig sesiynau nesaf.

Hoffem i chi ystyried gwneud gwaith yn y meysydd canlynol. Hoffem eich hysbysu hefyd bod ein rhwydwaith partner yn cynnwys arbenigwyr newid hinsawdd, tai, ynni adnewyddadwy a datblygu cymunedol, felly os hoffech ddefnyddio ein hadnoddau mewn unrhyw ffordd, ymweld â chynlluniau y mae ein partneriaid yn eu gweinyddu, byddem yn fwy na hapus. i hwyluso hyn.

Dymunwn ichi gynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o ddatganoli Ystad y Goron i Gymru. Yn ddiweddar, cadarnhaodd yr Ystad chwe cytundeb ynni gwynt alltraeth newydd, gwerth tua £1 biliwn. Mae Ceidwad y Cyfrin Bwrs wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor i rannu dymuniad y Brenin i'r arian hwn gael ei gyfeirio er budd ehangach y cyhoedd, yn hytrach nag at y Grant Sofran, trwy ostyngiad priodol yng nghyfran Ystâd y Goron sy'n ariannu'r Grant. Bydd un o'r 6 phrosiect wedi'i leoli oddi ar arfordir Gogledd Cymru, ac mae'n gyfle i wynt ar y môr gefnogi a helpu i dyfu economi Cymru. Mae rheolaeth ar Ystad y Goron yng Nghymru wedi ei ganoli yn San Steffan, ond eto yn yr Alban, mae'r rheolaeth wedi'i datganoli i Lywodraeth yr Alban ers 2017. Mae cefnogaeth gynyddol i Lywodraeth Cymru dderbyn yr un pwerau â'r Alban fel y gallwn elwa'n uniongyrchol o'r cyfleoedd economaidd a gyflwynir gan gynhyrchiad ynni adnewyddadwy posibl. Credwn y dylai'r Pwyllgor archwilio'r mater hwn, gyda golwg ar ddeall sut y gallai datganoli yn y maes hwn fod o gymorth i'n heconomi.

Rydym hefyd yn dymuno i'r pwyllgor ystyried gwneud darn o waith ar y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022 i lansio datblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo cyhoeddus. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi dweud y bydd elw ynni a grëir yng Nghymru yn sicrhau mwy o fanteision i bobl Cymru, ac y bydd yr arian dros ben a gynhyrchir drwy'r datblygwr newydd yn mynd yn ôl i'r pwrs cyhoeddus i'w ail-fuddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru a chreu swyddi o ansawdd da, a chartrefi gyda gwell effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, ers ei gyhoeddiad, ychydig iawn o fanylion cyhoeddus sydd am y datblygiad o dan sylw.

Ochr yn ochr â'r sefydliad Cwmpas, rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd i drafod sut y gellir ei siapio. Er i ni gael ymgysylltiad cadarnhaol gyda gweision sifil, rydym yn dymuno i'r pwyllgor hwn ymchwilio i'r mater yn fanylach mewn perthynas â chymryd tystiolaeth gan cymdeithas sifil i ddeall yr hyn y mae pobl Cymru am ei weld yn digwydd yn hyn o beth, a'i gymharu ag enghreifftiau rhyngwladol lle mae'r Llywodraeth yn rhedeg eu system ynni eu hunain. Sut mae'r cwmni ynni yn buddio'r economi yn eu gwledydd priodol? Sut y gallwn sicrhau ein bod yn ei roi ar waith yng Nghymru ar ôl dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill?

Maes arall o ddiddordeb yr hoffem i'r Pwyllgor weithio arno yw sut i sicrhau bod gennym fanteision cadarnhaol i gymunedau a phobl Cymru pan fydd y sector preifat yn buddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy yn ein Cenedl. Beth yw'r modelau a fyddai'n gweithio i'n cymunedau, gan sicrhau bod adfywio a sefydlogrwydd economaidd yn dilyn? Rydym yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod yna fuddsoddwyr mawr ar hyn o bryd yn gweithio neu'n ceisio cyflwyno caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau yng Nghymru, ac yn dymuno defnyddio eu harian i gefnogi'r cymunedau lle mae eu seilwaith ynni adnewyddadwy wedi'i adeiladu neu lle gallai cael eu hadeiladu. Y cwestiwn yw sut y gallwn sicrhau bod eu buddsoddiad cymunedol yn hirsefydlog, yn gynaliadwy ac yn berthnasol i'r hyn y mae'r gymuned eisiau mewn gwirionedd? Byddem yn gwerthfawrogi eich gwaith ar y mater hwn.

Mae Nature Positif yr un mor berthnasol i'r pwyllgor hwn ag y mae i'ch cyd-Aelodau ar y pwyllgor Newid Hinsawdd, gan ei fod yn croesi pob maes o waith y Llywodraeth. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda phartneriaid i geisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i roi Bil Natur Positif ar waith. Byddai'n helpu Cymru i osgoi degawd coll arall i fyd natur drwy sefydlu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflawni Cymru Natur Bositif, wedi'i gweithredu drwy fframwaith o dargedau adfer byd natur sy'n ei rhwymo'n gyfreithiol. Byddai hefyd yn creu corff llywodraethu amgylcheddol cadarn, annibynnol i gau'r bwlch sydd wedi bodoli yng Nghymru ers i'r DU adael yr UE. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw barn y gallwch eu llunio ar y Bil hwn.

Gwerthfawrogwn eich amser yn ystyried ein syniadau, ac edrychwn ymlaen at glywed eich ymateb,

Cofion cynnes,

Bethan Sayed ar ran Climate Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Bethan Sayed
Cydlynydd Ymgyrchoedd
Climate Cymru

22 Mai 2023

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Blaenraglen Waith

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr yn awgrymu materion y gallai'r Pwyllgor eu harchwilio.

Oherwydd maint cylch gwaith y Pwyllgor, mae'n rhaid inni flaenoriaethu gwaith yn eithaf trwm. Rwy'n credu y byddai datganoli ystâd y goron yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, tra byddai datblygwr ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth gyhoeddus yn fwy priodol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei ystyried.

Mae Aelodau wedi nodi'r bwlch sgiliau gwyrdd fel maes o ddiddordeb. Byddwn yn gwneud rhywfaint o waith ar y mater hwn maes o law – yn Nhymor y Gwanwyn gobeithio. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn byddwn yn cadw mewn golwg eich awgrym ynglŷn ag edrych ar y manteision cadarnhaol sy'n gysylltiedig â datblygiadau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn berthnasol i gymunedau a phobl Cymru, ynghyd â'ch cynnig o gefnogaeth.

Nid oes gan y Pwyllgor safbwynt ar Fil Cadarnhaol o ran Natur; fodd bynnag, byddwn yn dilyn y gwaith hwn gyda diddordeb.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/146/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

17 Mai 2023

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am bedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd heddiw.

Yr ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol) a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor Sefydlog. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod.

Yn y cyfarfod rhithwir hwn, rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth y DU, Ardaloedd Buddsoddi a Fframweithiau Cyffredin.

Byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

18 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniantt Bro ac Adfywio

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi bod yn trafod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, a'r ffaith ein bod wedi cyhoeddi adrodd ar y memoranda gwreiddiol, diwygiedig ac atodol ar 13 Chwefror.

Ar 25 Ebrill, cytunodd y Pwyllgor Busnes i'n gwahodd ni, a thri phwyllgor arall, i ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ("Memorandwm Atodol Rhif 3") ac i gyflwyno adroddiad erbyn 22 Mai. Cafodd y dyddiad cau ei ymestyn wedyn i 5 Mehefin.

Cafodd Memorandwm Atodol Rhif 3 ei ystyried gennym yn ein cyfarfod ar 11 MaI a phenderfynwyd peidio ag adrodd arno. Yn ein hadroddiad ar y memoranda gwreiddiol, diwygiedig ac atodol, dywedasom fod "ein hystyriaeth o'r memoranda yn canolbwyntio ar y darpariaethau o fewn ein cylch gwaith yn unig" ac nad oeddem "mewn sefyllfa i wneud argymhelliad ar unrhyw un o'r darpariaethau eraill yn y Bil sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd." Mae'r gwelliannau a nodir y Memorandwm Atodol Rhif 3 yn ymwneud ag adroddiadau canlyniadau amgylcheddol nad ydynt yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Ar y sail honno, a'r ffaith ei fod wedi cael ei gyfeirio at bwyllgorau eraill a allai fod â mwy o ddiddordeb yn y gwelliannau hyn, fe wnaethom benderfynu beidio ag adrodd ar y memorandwm y tro hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Eitem 3.9

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

26 Mai 2023

Annwyl Rebecca,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig**

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig ('y memorandwm') yn ei gyfarfod ar 24 Mai, ochr yn ochr â llythyr a gyhoeddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 18 Mai, sy'n codi cwestiynau pellach am ei gynnwys.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

Mae'r memorandwm yn datgan, mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen i'r Bil, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU" a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

Rydym yn ailadrodd y galwadau a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac yn gofyn am sicrwydd, os bydd y trafodaethau a gynhelir â Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau i'r Bil sy'n darparu pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, y bydd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael ei osod gerbron y Senedd. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i bwyllgorau'r Senedd graffu ar unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

ac yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid ddeall yn llawn a thrafod y goblygiadau ariannol, os o gwbl, a ddaw yn sgil dirprwyo pwerau o'r fath.

Yn ail, mae paragraff 39 o'r memorandwm yn nodi bod cymal 15(3)(d) o'r Bil "yn newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Fel y mae'r llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei wneud yn glir, dirprwywyd y pŵer hwn i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn debyg i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, rydym yn pryderu bod Bil y DU yn cael ei ddefnyddio i israddio gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun gwta ddwy flynedd yn ôl.

O ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar effaith lawn y rheoliadau hyn, yn ariannol ac fel arall, rydym yn ailadrodd y cais ichi ddarparu esboniad trylwyr ynghylch y rhesymau pam mae'r newidiadau a gyflwynir drwy gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Er mwyn llywio trafodaethau pellach gan y Pwyllgor ar y memorandwm cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 22 Mehefin, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Mehefin.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Mai 2023

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon buom yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (y Memorandwm).

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Memorandwm yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 1 Mehefin 2023.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

**Cwestiwn 1:** Mewn mannau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**Cwestiwn 2:** Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud "Nid oedd digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

a) O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fyddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru".

b) Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

**Cwestiwn 3:** Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol 'gwnaed' sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0660/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifat@senedd.cymru

01 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Mai i roi gwybodaeth lawn i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er mwyn iddo ystyried y Memorandwm ar y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil), cyn adrodd i'r Senedd.

***Cwestiwn 1: Mewn mannau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.***

Dechreuodd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil ym mis Mawrth 2022 a cheisiwyd darpariaethau ar gyfer Cymru (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â Digidoleiddio Ardrethi Busnes – gweler yr ymateb i gwestiwn 2a) ar 20 Mehefin 2022. Bryd hynny, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal yn gyfrinachol ac nid oedd yn glir a fyddai'r Bil yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno.

***Cwestiwn 2: Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi’r pwerau sydd wedi’u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud “Nid oedd digon o amser cyn i’r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru”. Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a’i bod yn “disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i’r Bil fynd rhagddo”.***

a) ***O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fyddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i’r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru”.***

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan ddigwyddodd yr ymgysylltu a ddisgrifiwyd wrth ymateb i Gwestiwn 1, nid oedd darpariaethau'n ymwneud â'r Rhaglen Digidoleiddio Ardrethi Busnes (DBR) yn rhan o gynnwys y Bil sy'n cael ei ddatblygu. Datblygwyd y darpariaethau hyn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023, ychydig cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Ar 14 Chwefror, ysgrifennais at y Gweinidogion Bil perthnasol i ofyn am fanylion y darpariaethau a oedd yn cael eu datblygu ac yn gofyn a fyddai modd ystyried eu hestyn i Gymru. Yn dilyn ymateb cadarnhaol ac ystyriaeth o'r cynigion manwl, ceisiais ddarpariaethau yn ffurfiol ar 17 Mawrth a gofynnais am drafodaeth bellach mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig perthnasol. Roeddwn yn cydnabod na fyddai modd, o bosibl, i'r trafodaethau hynny gael eu cwblhau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, a bu rhagor o ohebiaeth rhyngof a Gweinidogion y Bil.

b) ***Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.***

Gallaf gadarnhau bod ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn wedi dod i ben yn ystod taith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin. Nid oes angen unrhyw welliannau i'r Bil o ganlyniad i'r trafodaethau hynny. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cefnogi'r darpariaethau yn y Bil a estynnwyd i Gymru yn eu cyfanrwydd.

Mae'r pwerau a ddirprwywyd i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau EF yn gyfyngedig. Nid oes angen iddynt gael eu harfer i alluogi'r fframwaith deddfwriaethol a nodir yn y Bil i weithredu, a dim ond pan ystyrir bod angen newid gweinyddol perthnasol i sicrhau bod y rhaglen DBR yn gweithredu'n effeithiol y byddant yn cael eu defnyddio. Er y byddai unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wneir o dan y pwerau dirprwyedig yn newid y gofynion a roddir ar dalwyr ardrethi annomestig yng Nghymru, byddai hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y swyddogaethau a roddir gan y Bil i CThEF.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr CThEF ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau dirprwyedig ac i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru. Bydd y dull hwn yn galluogi i amcanion y rhaglen DBR gael eu cyflawni ac i'r manteision bwriadedig gael eu sicrhau yng Nghymru. Dim ond CThEF sy'n gallu darparu DBR i Gymru, gan fod y rhaglen yn dibynnu ar rannu a chysylltu â gwybodaeth a gedwir ganddo mewn perthynas â threthi heb eu datganoli, yn ogystal ag ardrethi annomestig.

Byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac i ymdrin ag unrhyw welliannau a wneir i'r Bil, mewn modd amserol.

***Cwestiwn 3: Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r***

***weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol 'gwnaed' sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.***

Mae'r pŵer perthnasol i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru amnewid effaith y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar osod y lluosydd ardrethi annomestig. Mae'r pŵer hwn wedi'i arfer yn flynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i rewi'r lluosydd, fel rhan o'r pecyn cymorth a ddarparwyd i drethdalwyr yn ystod y pandemig ac yn sgil y pwysau economaidd dilynol. Gan fod y penderfyniadau polisi ac ariannu cysylltiedig yn rhan o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, mae'r cyfyngiadau amseru y mae'r gweithdrefnau presennol yn eu gosod ar arfer y pŵer hwn, gan gynnwys y rhyngweithio ag ystyriaeth y Senedd o'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, wedi bod yn her ymarferol. Mewn rhai blynyddoedd mae hyn wedi cael effaith negyddol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y ddeddfwriaeth, wrth i'r adroddiadau cyllid llywodraeth leol gael eu hystyried yn gymharol fuan ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Mae Cymal 15(3)(d) yn dileu'r dyddiad terfynol presennol (cyn 1 Mawrth neu cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, pa un bynnag yw'r cynharaf) ar gyfer cymeradwyo'r rheoliadau gan y Senedd ac yn sicrhau bod drafft o'r rheoliadau yn destun craffu gan y Senedd cyn iddynt gael eu gwneud. Felly, nid wyf yn ystyried bod newid y weithdrefn o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn israddio'r gwaith craffu. Os rhywbeth, yn ogystal â chael gwared ar gyfyngiadau amseru diangen, bydd yn helpu i sicrhau bod gan y Senedd amser priodol i graffu ar y rheoliadau.

Mae cymal 15(4) yn dileu'r cyfyngiad presennol ar pryd y gellir cyfrifo a chadarnhau'r lluosydd ar gyfer awdurdodau bilio. Bydd hyn yn sicrhau y gellir rhoi eglurder i awdurdodau bilio a thalwyr ardrethi yng Nghymru cyn gynted â phosibl ac na fyddant o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr oherwydd cyfyngiadau gweithdrefnol nad ydynt yn cryfhau'r craffu (ac a allai gyfyngu arno mewn rhai amgylchiadau).

Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod gan y Senedd gyfle cyson i graffu cyn gwneud rheoliadau, ac yn lleihau'r risg o oedi cyn anfon biliau ardrethi annomestig. Bydd hyn o fudd i awdurdodau lleol ac i dalwyr ardrethi yng Nghymru.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

18 Mai 2023

Annwyl Paul a Huw,

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i drefnu ar gyfer 25 Mai 2023.

Bydd yr agenda yn cynnwys:

- diweddariad ar y trafodaethau ynghylch Cytundeb Masnach Rydd y DU-India
- diweddariad ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth (MoUs), gyda thaleithiau yr Unol Daleithiau, a
- diweddariad ar y trafodaethau ynghylch Cytundeb Masnach Rydd y DU-Canada

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Shavanah Taj
Ysgrifennydd Cyffredinol
TUC Cymru

19 Mai 2023

Cyllid Datblygu Rhanbarthol Wedi'r UE

Annwyl Shavanah,

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Yr wythnos hon clywsom rywfaint o dystiolaeth gan Brifysgolion Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynghylch colli swyddi mewn prifysgolion ac yn y trydydd sector, o ganlyniad i'r newid o'r Cronfeydd Strwythurol i'r strwythur ariannu sy'n cymryd eu lle.

Hoffai'r Aelodau ymchwilio ymhellach i hyn. Fel cynrychiolwyr TUC Cymru, ac undebau sy'n cynrychioli aelodau o'r gweithlu addysg uwch a'r trydydd sector, roeddem yn teimlo efallai bod gennych chi ddealltwriaeth o effaith y cam tuag at y strwythur ariannu newydd ar swyddi yng Nghymru.

Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed unrhyw wybodaeth sydd gennych am golli swyddi, ac unrhyw wybodaeth arall y teimlwch sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Os yn bosibl, byddwn yn gwerthfawrogi cael yr wybodaeth hon erbyn 16 Mehefin.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Jamie Insole
Swyddog Cymru
UCU Cymru

19 Mai 2023

Cyllid Datblygu Rhanbarthol Wedi'r UE

Annwyl Jamie,

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Yr wythnos hon clywsom rywfaint o dystiolaeth gan Brifysgolion Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynghylch colli swyddi mewn prifysgolion ac yn y trydydd sector, o ganlyniad i'r newid o'r Cronfeydd Strwythurol i'r strwythur ariannu sy'n cymryd eu lle.

Hoffai'r Aelodau ymchwilio ymhellach i hyn. Fel cynrychiolwyr TUC Cymru, ac undebau sy'n cynrychioli aelodau o'r gweithlu addysg uwch a'r trydydd sector, roeddem yn teimlo efallai bod gennych chi ddealltwriaeth o effaith y cam tuag at y strwythur ariannu newydd ar swyddi yng Nghymru.

Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed unrhyw wybodaeth sydd gennych am golli swyddi, ac unrhyw wybodaeth arall y teimlwch sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Os yn bosibl, byddwn yn gwerthfawrogi cael yr wybodaeth hon erbyn 16 Mehefin.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Richie Lewis
Swyddog Cenedlaethol Cynorthwyol
Unison Cymru

19 Mai 2023

Cyllid Datblygu Rhanbarthol Wedi'r UE

Annwyl Richie,

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro. Yr wythnos hon clywsom rywfaint o dystiolaeth gan Brifysgolion Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ynghylch colli swyddi mewn prifysgolion ac yn y trydydd sector, o ganlyniad i'r newid o'r Cronfeydd Strwythurol i'r strwythur ariannu sy'n cymryd eu lle.

Hoffai'r Aelodau ymchwilio ymhellach i hyn. Fel cynrychiolwyr TUC Cymru, ac undebau sy'n cynrychioli aelodau o'r gweithlu addysg uwch a'r trydydd sector, roeddem yn teimlo efallai bod gennych chi ddealltwriaeth o effaith y cam tuag at y strwythur ariannu newydd ar swyddi yng Nghymru.

Byddai gennym ddiddordeb mawr mewn clywed unrhyw wybodaeth sydd gennych am golli swyddi, ac unrhyw wybodaeth arall y teimlwch sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Os yn bosibl, byddwn yn gwerthfawrogi cael yr wybodaeth hon erbyn 16 Mehefin.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Eitem 3.12

**Peter Fox OBE AS**
Aelod o'r Senedd dros Fynwy
—
Member of the Senedd for Monmouth

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298
@Peterfox_ms
@PeterFox61
Peter Fox AS

Paul Davies AS,
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

19 Mai 2023

Annwyl Paul,

**Bil Bwyd (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

Hoffwn ddiolch i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am ei waith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2023. Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, boed hynny'n ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb yn ystod sesiynau craffu Cyfnod 1. Rwyf wedi cael fy syfrdanu gan lefel yr ymgysylltu ar y Bil hwn drwy gydol y broses ddeddfwriaethol.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Lle mae argymhellion wedi eu hanelu at Lywodraeth Cymru yn hytrach nag ataf i fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi nodi'r rhain, ond rwyf wedi cynnwys fy meddyliau fy hun mewn ymateb lle bo hynny'n briodol.

Er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion cynnes



**Peter Fox, AS Mynwy**
**Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)**

## Atodiad A

## Ymateb gan Peter Fox, AS, i Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Bwyd (Cymru)

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Er bod y Pwyllgor yn cefnogi amcanion polisi'r Bil yn unfrydol, ni all ddod i farn unedig am yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny. Felly, rydym yn argymell bod y Senedd yn penderfynu a yw'n derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n croesawu cefnogaeth unfrydol y Pwyllgor i amcanion polisi'r Bil Bwyd (Cymru). Mae hyn yn adlewyrchu'n fawr y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a welais yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor.<br><br>Mae'n siomedig na allai'r Pwyllgor gyrraedd safbwynt unedig ar yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi. Fel y nodwyd gennych yn eich adroddiad, roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor o blaid y ddeddfwriaeth, gyda chefnogaeth gan undebau amaeth, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, grwpiau lles anifeiliaid, academyddion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.<br><br>Mae amcanion penodol yn rhan o'r Bil y gellid eu cyflawni heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol - er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth fwyd genedlaethol. Fodd bynnag, rwyf wedi dweud yn glir ers y dechrau mai un o fanteision nodi'r polisi drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yw y byddai llywodraethau Cymru yn y dyfodol yn rhwym wrth y ddeddfwriaeth i gyflawni'r polisi mewn ffordd gyson. Byddai'r diffyg deddfwriaeth i gyflawni'r polisi hefyd yn gadael y polisi hwnnw heb unrhyw fecanwaith priodol ar gyfer craffu nac atebolrwydd.<br><br>Nodaf yr argymhelliad mai'r Senedd sy'n penderfynu a yw'n cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Senedd yn myfyrio ar y gefnogaeth ysgubol i'r Bil gan randdeiliaid a sefydliadau ledled Cymru, ac yn penderfynu cefnogi ei Egwyddorion Cyffredinol. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wella ei dull o ymdrin â'r system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig ac yn cyd-fynd. Gallai hyn naill ai fod drwy'r Bil hwn neu drwy ddulliau anneddfwriaethol. Os bydd y Bil yn methu, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio pa elfennau o'r Bil y gallai eu cyflwyno drwy lwybr anneddfwriaethol. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n croesawu argymhelliad y Pwyllgor. Un o'r prif resymau sy'n sail i'r angen am y Bil hwn yw'r ffordd ddigyswllt mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'i pholisi bwyd. Fel y dywedais yn y Memorandwm Esboniadol, ac fel rydych chi wedi ei ddyfynnu yn yr adroddiad: "*Nid yw polisi presennol Llywodraeth Cymru o ran bwyd yn gydgysylltiedig, sy'n arwain at anghydlyniaeth polisi a chanlyniadau anfwriadol. Mae angen un dull cyfannol cyffredinol o ymdrin â'r system* |

| |
|---|
| *fwyd gyfan yng Nghymru i sicrhau'r ystod eang o fanteision y gall system fwyd gydgysylltiedig, gydnerth a chynaliadwy eu cynnig.*"<br><br>Yn fy ymgynghoriad fy hun ar y Bil drafft, cytunodd 100% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn penodol hwn nad oedd polisi bwyd Llywodraeth Cymru yn un cydlynol. |
| **Argymhelliad 3.** Os yw'r Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, dylid diwygio'r nodau bwyd eilaidd i fod yn llai sectoraidd. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Yn ystod datblygiad y Bil, roedd lefel uchel o ymgysylltu ar fanylion y nodau bwyd. Cefais awgrymiadau gan lawer o randdeiliaid a sefydliadau ar draws gwahanol sectorau ynghylch yr hyn y dylai'r nodau bwyd eu cynnwys, a'r meysydd y dylent eu cynnwys. Yn anffodus, ni fyddai wedi bod yn bosibl bodloni disgwyliadau a dymuniadau pawb ar wyneb y Bil.<br><br>Fe wnes i ymrwymiad i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 y byddwn i'n ystyried yr holl dystiolaeth a gafwyd i archwilio lle gallai fod angen diwygio'r nodau bwyd. Fodd bynnag, nid wyf yn hollol glir beth fyddai darparu nodau bwyd 'llai sectoraidd' yn ei olygu yn ymarferol. Fodd bynnag, gan ailadrodd yr ymrwymiad uchod, byddwn yn fodlon gweithio gyda'r Pwyllgor, rhanddeiliaid, a chyda Llywodraeth Cymru i archwilio gwelliannau posibl i'r nodau bwyd.<br><br>Prif amcan polisi y Bil yw darparu bwyd fforddiadwy, iach ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae sefydlu "nodau bwyd" yn y rhan agoriadol o'r Bil yn darparu mecanwaith i helpu i gyflawni'r prif amcan polisi hwnnw. Gan hynny, mae'n hanfodol bod y nodau bwyd yn cael eu halinio fel eu bod yn bwydo i mewn i ddarparu system fwyd integredig. |
| **Argymhelliad 4.** Os yw'r Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi dogfen sy'n nodi ei pholisïau bwyd, ar draws adrannau, a sut y mae'r rhain yn gyson â'i phrif amcanion cyffredinol. Dylai'r ddogfen hon gael ei diweddaru'n rheolaidd. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n nodi argymhelliad y Pwyllgor.<br><br>Yn yr un modd â nifer o argymhellion y Pwyllgor, rwy'n mawr obeithio y bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 y broses ddeddfwriaethol. Mae fy ymatebion drwy gydol yr adroddiad hwn yn adlewyrchu fy nghred mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion polisi rwyf wedi eu nodi (fel mae'r Pwyllgor wedi cytuno'n unfrydol) yw drwy ddeddfu'r Bil Bwyd (Cymru).<br><br>O ran yr argymhelliad penodol hwn, byddwn yn croesawu cyhoeddi dogfen o'r fath gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod ei holl bolisïau bwyd yn cael eu mapio'n briodol o ran amcanion - a'u cyhoeddi. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 5.** Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 dylid ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i fecanwaith monitro a gwerthuso cryf gael ei ymgorffori ar gyfer pob targed bwyd pan fydd y targed hwnnw'n cael ei osod. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Mae'r Bil eisoes yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer monitro a gwerthuso'r targedau bwyd. Yn benodol:<br>- mae'r gofynion adrodd yn adran 6 yn darparu'r mecanwaith ar gyfer gwaith craffu ac atebolrwydd o ran cynnydd a wneir wrth gyflawni'r targedau a osodwyd; ac<br>- mae'r gofynion adolygu yn adran 7 yn helpu i sicrhau bod y targedau a osodir yn unol â'r Bil yn parhau'n berthnasol ac yn fesuradwy.<br><br>Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod angen i'r mecanweithiau monitro a gwerthuso ar gyfer y targedau bwyd fod yn gadarn ac mor gryf ag y gallant fod. Gan hynny, byddwn yn barod i weithio gyda rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru i ystyried a oes angen gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r gofynion hyn. |
| **Argymhelliad 6**. Os bydd y Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer dadansoddi bylchau o'r targedau presennol sy'n berthnasol i'r system fwyd ac, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gyflwyno targedau newydd i lenwi unrhyw fylchau. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgymryd â gwaith yn y maes hwn i sicrhau nad oes 'bylchau'. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ar ei ben ei hun, a dylid alinio'r gwaith hwn ag unrhyw waith mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ddatblygu unrhyw strategaethau bwyd newydd ac ati. |
| **Argymhelliad 7**. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, dylid ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ehangu swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru i gynnwys cyfrifoldebau ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys monitro polisi bwyd a pherthnasoedd masnachu y DU ac yn rhyngwladol sy'n effeithio ar system fwyd Cymru. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Dylid nodi swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd ar wyneb y Bil. Fel y'i cyflwynwyd, nid yw'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r swyddogaethau hynny drwy Reoliadau. Er mwyn bodloni'r argymhelliad hwn, byddai angen diwygio'r Bil nid yn unig i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori, byddai angen ei ddiwygio i gyflwyno pŵer newydd i wneud rheoliadau i alluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio swyddogaethau'r Comisiwn.<br><br>Pe bai swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd yn cael eu hehangu, y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer gwneud hyn fyddai drwy welliant yng Nghyfnod 2. O ystyried cryfder y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod Cyfnod 1, byddwn yn fodlon cyflwyno gwelliannau perthnasol yng Nghyfnod 2 at y diben hwn a byddaf yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn unol â hynny. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 8**. Os bydd y Bil yn methu, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru naill ai sefydlu bwrdd polisi bwyd mewnol neu weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu swydd systemau bwyd bwrpasol i lywio polisi bwyd cydgysylltiedig yng Nghymru, gyda'r dyhead o ddarparu bwyd fforddiadwy ac iach sy'n economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl nawr ac yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y bwrdd hwn bob blwyddyn. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n nodi bwriadau'r Pwyllgor yma, ond credaf yn gryf mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â pholisi bwyd cydgysylltiedig yng Nghymru - gyda'r dyhead o ddarparu bwyd fforddiadwy ac iach sy'n gynaliadwy yn economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol i bobl yn awr ac yn y dyfodol - fyddai deddfu'r Bil Bwyd (Cymru) a sefydlu Comisiwn Bwyd annibynnol. |
| **Argymhelliad 9.** Ni waeth a yw'r Bil yn mynd rhagddo neu'n methu, mae'r Pwyllgor yn cefnogi datblygu strategaeth fwyd genedlaethol gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod allweddol o gydgysylltu polisi bwyd Llywodraeth Cymru ar draws adrannau. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n croesawu argymhelliad y Pwyllgor yn fawr. Fel y nodwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 2, mae angen i bolisi bwyd Llywodraeth Cymru fod yn llawer mwy cydgysylltiedig. Mae datblygu strategaeth fwyd genedlaethol yn rhan annatod o hynny. |
| **Argymhelliad 10.** Dylai'r strategaeth fwyd genedlaethol gynnwys unrhyw dargedau bwyd presennol ac unrhyw dargedau bwyd newydd a osodir. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Yn anffodus nid yw'n glir beth yw bwriad yr argymhelliad hwn, gan nad oes digon o naratif ynghylch y mater hwn yn yr adroddiad.<br><br>Os yw'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at dargedau newydd a osodwyd o dan Adran 4 y Bil, yna byddai'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth fwyd genedlaethol fel rhan o'r broses a nodir yn y Bil (h.y. rhaid i'r strategaeth nodi'r polisïau sydd i'w dilyn er mwyn cyrraedd y targedau - a byddai hynny'n berthnasol i bob targed a wneir o dan y Bil).<br><br>Fodd bynnag, os yw'r Argymhelliad yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at y targedau bwyd mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod y tu allan i ddarpariaethau'r Bil, nid yw'n glir a yw'r Pwyllgor yn galw am welliannau i'r Bil i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y strategaeth.<br><br>Heb y manylion hynny, ni allaf dderbyn yr argymhelliad. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 11.** Os sefydlir Comisiwn Bwyd Cymru, dylai fod ganddo rôl gref o ran cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a gweithredu'r strategaeth fwyd genedlaethol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Er fy mod i'n derbyn yr argymhelliad hwn, mae'r Bil eisoes yn darparu mecanweithiau a fydd yn galluogi'r Comisiwn Bwyd i chwarae rhan gref wrth gynghori Llywodraeth Cymru a chraffu arni o ran datblygu a gweithredu'r strategaeth fwyd genedlaethol. Yn benodol:<br><br>- Mae adran 12 o'r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor y Comisiwn Bwyd cyn llunio'r strategaeth fwyd genedlaethol.<br>- Mae adran 10 y Bil (swyddogaethau'r Comisiwn) yn cynnwys y swyddogaeth i graffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol.<br><br>Byddwn yn barod i weithio gyda'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 i ystyried a oes angen gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r mecanweithiau hyn ymhellach, os ystyrir bod hynny'n briodol. |
| **Argymhelliad 12.** Os bydd y Bil yn methu a bod yr argymhelliad i sefydlu bwrdd bwyd mewnol o fewn Llywodraeth Cymru yn cael ei weithredu, dylai'r bwrdd hwn fod â rôl oruchwylio o ran datblygu a gweithredu'r strategaeth. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Fel gydag argymhelliad 8, nodaf fwriad y Pwyllgor yma, ond credaf yn gryf mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn fyddai deddfu'r Bil Bwyd (Cymru) a sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru.<br><br>Yn benodol, o ran y cwestiwn a ddylai'r bwrdd bwyd mewnol feddu ar rôl oruchwylio ar ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Fwyd, nid wyf o'r farn y byddai gan Fwrdd Llywodraeth anstatudol, mewnol, y lefel o annibyniaeth sydd ei hangen i oruchwylio Gweinidogion Cymru yn briodol wrth gyflawni'r polisi hwn. |
| **Argymhelliad 13.** Rhaid i'r strategaeth beidio ag 'eistedd ar y silff' a dylid ei gweithredu'n genedlaethol ac yn lleol. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, dylid ystyried gwelliannau a fyddai'n cefnogi gweithrediad y strategaeth gan gyrff Cyhoeddus. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Y ffordd y bwriedir i'r Bil weithredu yw cael strategaeth fwyd genedlaethol, a weithredir ar lefel genedlaethol. Byddai'r strategaeth fwyd genedlaethol honno'n nodi'r strategaeth a'r polisïau cyffredinol y bydd **Gweinidogion Cymru** yn eu defnyddio i hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd.<br><br>Mae'r Bil wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud cynlluniau bwyd lleol, i'w rhoi ar waith ar lefel leol. Bydd y cynlluniau bwyd lleol hyn yn nodi'r polisïau y bydd y **cyrff** |

| |
|---|
| **cyhoeddus** yn eu dilyn er mwyn hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd. Wrth wneud cynllun bwyd lleol, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol.<br><br>Mae'r gwahaniaeth rhwng y strategaeth genedlaethol a'r cynlluniau lleol yn un pwysig iawn. Ni fwriedir i'r strategaeth genedlaethol gael ei gweithredu ar lefel leol, gan mai dyna fydd y cynlluniau bwyd lleol yn ei wneud. |
| **Argymhelliad 14.** Dylid diwygio adran 17 i gynnwys yr angen am gynlluniau bwyd lleol i gefnogi caffael bwyd lleol. |
| **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**<br>Fel rwyf wedi ei nodi mewn perthynas ag Argymhelliad 13, byddai cynlluniau bwyd lleol yn nodi'r polisïau y bydd y cyrff cyhoeddus yn eu dilyn i hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd.<br><br>Mae'r prif nod bwyd yn cynnwys darparu bwyd sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol; mae'r nod bwyd eilaidd ar llesiant economaidd yn cynnwys cyfeiriad at greu cyfleoedd economaidd newydd drwy hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol. Wrth hyrwyddo'r nodau bwyd hyn gallai corff cyhoeddus gynnwys caffael bwyd yn lleol yn ei gynlluniau bwyd lleol.<br><br>Fodd bynnag, byddwn yn barod i weithio gyda'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 i ddiwygio'r Bil i'w gwneud yn fwy eglur y dylid cynnwys caffael bwyd yn lleol mewn cynlluniau bwyd lleol. Credaf mai'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny fyddai diwygio'r disgrifiad o'r nod bwyd perthnasol yn Adran 3, yn hytrach na diwygio adran 17 ei hun.<br><br>Fel y dywedais yn fy ymateb i Argymhelliad 3, gwnes ymrwymiad i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 y byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth a ddaeth i law i archwilio lle gallai fod angen diwygio'r nodau bwyd. |
| **Argymhelliad 15.** Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 dylid ystyried gwelliant i adran 18 i gynnwys dyletswydd i ymgynghori â sefydliadau cymunedol sy'n darparu ac yn hyrwyddo prosiectau bwyd lleol ar hyn o bryd. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Mae adran 18(1) o'r Bil yn darparu, cyn gwneud cynllun bwyd lleol, y **caiff** cyrff cyhoeddus ymgynghori â chyrff neu unigolion penodol. Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd y ddarpariaeth hon yn ofalus, a'i drafftio i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn ddewis yn hytrach na dyletswydd. Ystyriwyd y gallai gwneud hyn yn ddyletswydd gael effaith negyddol o bosibl ar gyrff cyhoeddus penodol, sydd eisoes yn gwneud gwaith sylweddol ar ddarparu polisïau bwyd lleol.<br><br>Mae adran 18(1)(a) a (b) yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddau gorff y gellir ymgynghori â hwy (y Comisiwn Bwyd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru). Mae adran 18(1)(c) o'r Bil |

| |
|---|
| yn nodi darpariaeth gyffredinol sy'n ymwneud ag ymgynghori ag “unrhyw bersonau eraill y mae’r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol”. Byddai hyn yn galluogi ymgynghori â'r sefydliadau cymunedol hynny pe bai'r corff cyhoeddus o’r farn fod hynny’n briodol.<br><br>Nid wyf o’r farn y byddai'n briodol darparu rhestr o bwy ddylai'r 'personau eraill' hynny fod o fewn adran 18 o'r Bil. Mae hyn yn agor blwch pandora o bwy ddylai gael ei gynnwys a phwy na ddylid ei gynnwys. Mae'r ddarpariaeth gyffredinol hon ar gyfer ymgynghori hefyd yn gyson â darpariaethau tebyg mewn deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Argymhelliad 16.** Os bydd y Bil yn methu, dylai’r Gweinidog, drwy ganllawiau priodol, annog camau gweithredu a fyddai’n hybu gweithredu cynlluniau bwyd lleol i annog sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio bwyd o ffynonellau lleol. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Yn yr un modd ag argymhellion cynharach, nodaf fwriadau'r Pwyllgor yma, ond credaf yn gryf mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn fyddai deddfu'r Bil Bwyd (Cymru) a fyddai'n gofyn am weithredu cynlluniau bwyd lleol, sy'n adeiladu o strategaeth genedlaethol. Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn gweld sut byddai defnyddio canllawiau anstatudol i annog gweithredu yn y maes hwn yn cael yr effaith a ddymunir. Ni fyddai defnyddio canllawiau yn y modd hwn ychwaith yn sicrhau dull cyson sy'n cael ei gynnal dros y blynyddoedd i ddod. |
| **Argymhelliad 17.** Os bydd y Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd bwyd yn lleol drwy’r mecanweithiau gorau sydd ar gael o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Gallai hyn fod drwy gynnwys dangosydd/ion llesiant newydd gyda cherrig milltir i gefnogi system fwyd well. Dylai hyn olygu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried caffael cyhoeddus a chynaliadwyedd bwyd ymhellach yn eu hasesiadau a’u cynlluniau llesiant. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Mater i Lywodraeth Cymru fydd trafod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sut gellid gwneud hyn drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

**Peter Fox OBE AS**
Aelod o'r Senedd dros
Fynwy
—
Member of the Senedd for
Monmouth

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298
@Peterfox_ms
@PeterFox61
Peter Fox AS

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Mai 2023

Annwyl Huw,

**Y Bil Bwyd (Cymru) – ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei waith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 11 Mai 2023.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion cynnes



**Peter Fox, AS Mynwy**
**Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)**



Senedd Cymru
Welsh Parliament
Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

## Atodiad A

## Ymateb gan Peter Fox, AS, i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil Bwyd (Cymru)

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Fel rhan o'i adolygiad o'r weithdrefn Bil Aelod, dylai'r Pwyllgor Busnes ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno proses fwy dryloyw ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion ac Aelodau o'r Senedd sydd wedi sicrhau caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno Bil Aelod. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn yn fawr. Rwy'n deall, ac yn derbyn, bod angen i'r broses ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'r Senedd fod yn gadarn – ac mae hynny'n cynnwys Biliau Aelodau. Fodd bynnag, mae'n anodd i Aelodau unigol o'r Senedd fodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6 yn llawn heb ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a chael cymorth ganddynt.<br><br>Er mai Aelodau'r Senedd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r polisi a drafftio Biliau Aelodau, yn y rhan fwyaf o achosion y Llywodraeth fydd yn gorfod rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ar ôl iddi ddod i rym.<br><br>Mewn perthynas â Bil Bwyd (Cymru), roedd angen rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru (er enghraifft) lunio'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol, neu osod y targedau bwyd. Bydd mwy o gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion a'r Aelod yn sicr yn helpu i ddatblygu'r ddeddfwriaeth.<br><br>Ar ôl cael y profiad o ennill y balot a sicrhau caniatâd i symud ymlaen, byddwn yn barod i fwydo i mewn i unrhyw adolygiad ehangach o Filiau Aelodau y gallai'r Pwyllgor Busnes ei gynnal. |
| **Argymhelliad 2.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu bod yn rhaid cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus ar sut mae'r dyletswyddau a osodir arnynt gan y Bil yn rhyngweithio â'u dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd yn ystod Cyfnod 1 ynghylch sut byddai darpariaethau'r Bil yn rhyngweithio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er fy mod i o'r farn y byddai'r ddwy Ddeddf yn gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, gallaf weld mantais cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus yn nodi sut byddai'r dyletswyddau o dan y Bil Bwyd yn rhyngweithio â dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan hynny, byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 at y diben hwn. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu adran 2 o'r Bil, sy'n nodi'r nod bwyd sylfaenol. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Rwyf o'r farn bod cynnwys y nod bwyd sylfaenol yn darparu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu fel pwynt angori y bydd polisi a grëwyd drwy'r Bil yn ceisio ei gyflawni. Nid wyf yn cytuno y dylid dileu hyn o'r Bil.<br><br>Datblygwyd y Bil yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru. Cynhwyswyd y nod bwyd sylfaenol trosfwaol hwn yn y Bil drafft mewn ymateb i drafodaethau a gefais gyda rhanddeiliaid a oedd yn teimlo bod angen nodi egwyddor allweddol yn y Bil.<br><br>Yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft, roedd 59% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylid cynnwys nod bwyd sylfaenol wedi ei ategu gan nodau bwyd eilaidd. Dim ond 8% o'r rhai a ymatebodd oedd yn anghytuno â'r dull hwn. Mynegwyd safbwyntiau am fanylion a ffocws y nod bwyd sylfaenol, ac roedd y mwyafrif o randdeiliaid o blaid ei gynnwys.<br><br>Amlygodd trafodaethau yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig unwaith eto fod safbwyntiau gwahanol ymhlith rhanddeiliaid ar fanylion y prif nod bwyd, ond nid oedd galw am ei ddileu. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu'r dulliau a ddefnyddir i roi gwybodaeth lawn a chynhwysfawr i gyrff cyhoeddus am y nodau bwyd eilaidd, a sut y maent i'w dehongli. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Wrth ddrafftio'r Bil, rhagwelwyd y byddai'r Comisiwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni ei swyddogaethau o ddydd i ddydd. Nod y fframwaith statudol a nodir yn y Bil yw hyrwyddo cydweithrediad parhaus rhwng y Comisiwn a'r cyrff cyhoeddus perthnasol.<br><br>Mae adran 10 o'r Bil yn nodi swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu (a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i ddatblygu) polisïau mewn perthynas â materion bwyd; yn ogystal â chynghori, hysbysu a chynorthwyo cyrff cyhoeddus mewn perthynas â materion bwyd. Mae swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd hefyd yn cynnwys, yn benodol, swyddogaeth i:<br><br>*(d) darparu trosolwg ac adolygiad o berfformiad y gwaith o arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r nodau bwyd a'r targedau bwyd;*<br><br>Mae adran 18 o'r Bil yn darparu y caiff cyrff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn Bwyd, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, neu bersonau priodol eraill, cyn gwneud cynllun bwyd. Byddai hyn yn cynnwys ceisio cyngor ar y nodau bwyd. |

| |
|---|
| Rwyf o'r farn bod y swyddogaethau hyn yn darparu'r mecanweithiau a ddefnyddir i roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyrff cyhoeddus ynghylch sut dylid dehongli'r nodau bwyd, er mwyn iddynt allu datblygu a gwneud eu cynlluniau bwyd lleol. |
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 3(3) o'r Bil fel bod y ddyletswydd i ymgynghori cyn diwygio'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd yn gymwys i gyrff priodol eraill yn ogystal â Chomisiwn Bwyd Cymru. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Fel y nodir yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2023, y bwriad drwy'r Bil yw y bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn arwain y gwaith ar fwrw ymlaen â'r nodau bwyd, gan chwarae rhan ganolog fel y corff mae Gweinidogion Cymru yn troi ato am gyngor a gwybodaeth. Dyna pam ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn diwygio unrhyw un o'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd.<br><br>Nid yw'r gofyniad hwnnw yn atal Gweinidogion Cymru rhag gofyn am farn cyrff a rhanddeiliaid eraill hefyd. Er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diwygio'r disgrifiad o nod bwyd eilaidd yr amgylchedd, gallant ofyn am farn Cyfoeth Naturiol Cymru (er enghraifft) yn ogystal â'r Comisiwn Bwyd.<br><br>Fodd bynnag, fel yr wyf hefyd wedi ei nodi yn fy llythyr, os oes consensws ymhlith y Pwyllgor fod angen nodi ar wyneb y Bil y gellir neu bod rhaid ymgynghori â phersonau priodol eraill cyn diwygio'r disgrifiadau, yna mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ystyried ei wneud drwy welliannau yng Nghyfnod 2. |
| **Argymhelliad 6.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 4(5) o'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i'r rheoliadau cyntaf sy'n gosod un neu fwy o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd gael eu gwneud a dod i rym o fewn dwy flynedd ar ôl i adran 4 ddod i rym. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Fel y nodir yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2023, cytunaf fod angen y gwelliant hwn. Fy mwriad yw cyflwyno'r gwelliant hwn yng Nghyfnod 2. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ehangu'r ddyletswydd yn adran 5 o'r Bil i ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru i gynnwys cyrff y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol i ymgynghori â hwy hefyd. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Mae'n ymddangos bod y manylion yn adroddiad y Pwyllgor yn awgrymu bod y pryderon ynghylch Adran 5(1)(b) o'r Bil yn ymwneud â chynnwys y ddyletswydd i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan "bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol". |

Er bod yr argymhelliad hwn yn ceisio ehangu adran 5 o'r Bil i gynnwys cyrff mae Gweinidogion Cymru o’r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy **hefyd**, mae’n ymddangos bod y naratif yn yr adroddiad, ac yn y sesiwn graffu, yn awgrymu y byddai’r gwelliant rydych chi’n dymuno ei gyflwyno mewn gwirionedd yn dileu’r cyfeiriad at ‘bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol’ a rhoi cyfeiriad yn ei le at ‘bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru o’r farn eu bod yn briodol’.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor yn ystod y sesiwn graffu, roedd hwn yn faes yr oedd angen i ni fyfyrio ymhellach arno i sicrhau nad oeddem yn eithrio rhywun a allai gyfrannu'n ddefnyddiol neu rywun y gallai'r Llywodraeth fod eisiau ymgynghori ag ef. Gan hynny, byddwn yn barod i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2, fel y nodais uchod.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Aelod sy’n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 17 o’r Bil i ymestyn y cyfnod o amser lle dylai corff cyhoeddus gyhoeddi cynllun bwyd lleol, o ddwy flynedd ar ôl i’r Bil ddod i rym i dair blynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy’n cytuno â’r pwyllgor y byddai ymestyn y cyfnod pan ddylai cyrff cyhoeddus gyhoeddi eu cynlluniau bwyd yn lleihau’r risg o roi pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus os nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu cyhoeddi’r cynllun bwyd cenedlaethol mewn da bryd.

Fel yr amlinellais i’r Pwyllgor, mae y tu hwnt i amgyffred na allai Llywodraeth lunio strategaeth fwyd o fewn dwy flynedd, ond byddai’r gwelliant a awgrymir yn lleihau risg pe bai hynny’n digwydd.

**Argymhelliad 9**. Dylai'r Aelod sy’n gyfrifol ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau lle gall Gweinidogion Cymru dynnu corff cyhoeddus oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 22(1) o’r Bil.

**Ymateb: Gwrthod**

Fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd, dim ond rhestr gyfyngedig o gyrff cyhoeddus sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil. Ni allaf feddwl am amgylchiadau lle byddai’r cyrff cyhoeddus hynny a restrir eisoes yn cael eu dileu o Adran 22(1).

Fodd bynnag, mae adran 22(2) o’r Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu cyrff cyhoeddus at y rhestr. Mae’n bosibl felly y gall y rhestr o gyrff cyhoeddus edrych yn wahanol dros amser.

Heb wybod pa gyrff y gellid eu hychwanegu at y rhestr, ni fyddai'n bosibl rhoi enghreifftiau penodol o'r amgylchiadau a allai arwain at eu tynnu oddi ar y rhestr. Mae'r darpariaethau a nodir yn Adran 22(2) o'r Bil (y caniateir i gyrff cyhoeddus gael eu dileu) wedi eu cynnwys yn y Bil er mwyn diogelu'r adran benodol hon o'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Os cyfyd amgylchiadau lle bernir ei bod yn briodol dileu corff cyhoeddus, mae’r ddarpariaeth yno.

Yn gyffredinol, rhaid i bob corff cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw gorff ychwanegol a ychwanegwyd) gyhoeddi adroddiadau o bryd i’w gilydd yn asesu effeithiolrwydd ei gynllun bwyd lleol, ac yn benodol,


Senedd Cymru
Welsh Parliament
Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

| |
|---|
| y cyfraniad mae wedi ei wneud at hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd. Dros amser, gall yr adolygiadau cyfnodol hynny bwysleisio nad yw gosod dyletswydd ar gorff penodol i gynhyrchu cynlluniau bwyd lleol yn cyd-fynd â gwaith neu swyddogaethau'r corff hwnnw. Gellid gwneud y penderfyniad wedyn i dynnu'r corff hwnnw oddi ar y rhestr. |
| **Argymhelliad 10**. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'r anfanteision o ddarparu yn adran 22(5)(b) o'r Bil bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â pherson sydd i'w dynnu oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 22(1) o'r Bil. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Mae'r drafftio a ddefnyddir yn adran 22 o'r Bil yn gyson ag enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth Cymru gan gynnwys adran 52(4) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Bydd angen ymgynghori bob amser er mwyn ychwanegu corff at y rhestr o gyrff cyhoeddus, er mwyn rhoi gwybod i'r corff hwnnw am unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol y bydd yn ddarostyngedig iddo. Nid yw tynnu corff oddi ar y rhestr yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar y corff hwnnw, dim ond dileu'r dyletswyddau hynny, felly ni fydd angen ymgynghori â nhw bob amser.<br><br>Yn ogystal, mae adran 22(5)(c) yn darparu, wrth wneud Rheoliadau i dynnu corff cyhoeddus oddi ar y rhestr, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau maent o'r farn eu bod yn briodol, a fydd, yn ôl pob tebyg, yn cynnwys y corff sy'n cael ei dynnu oddi ar y rhestr.<br><br>Gan hynny, nid wyf o'r farn ei bod yn ofynnol gosod dyletswydd ar wyneb y Bil bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny sy'n cael eu tynnu oddi ar y rhestr. Byddwn yn dweud bod amlinellu fy ymresymiad yn fwy priodol nag amlinellu anfanteision rhywbeth nad oes ei angen (yn fy marn i). |

**Peter Fox OBE AS**
Aelod o’r Senedd dros
Fynwy
—
Member of the Senedd for
Monmouth

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298
@Peterfox_ms
@PeterFox61
Peter Fox AS

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

19 Mai 2023

Annwyl Peredur,

**Bil Bwyd (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2023.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Lle mae casgliadau wedi eu gwneud, neu lle mae argymhellion wedi eu hanelu at Lywodraeth Cymru yn hytrach nag ataf i fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi nodi'r rhain, ond rwyf wedi cynnwys fy meddyliau fy hun mewn ymateb lle bo hynny'n briodol.

Er na fu’n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor, rwy’n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o’r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion cynnes,

**Peter Fox, AS Mynwy**
**Yr Aelod sy’n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)**

**Atodiad A**

**Ymateb gan Peter Fox, AS i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Bwyd (Cymru)**

| |
|---|
| **Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig â’r diffyg gwybodaeth am nifer o elfennau’n ymwneud â’r Bil ac felly ni all ddod i gasgliad ynghylch a yw’r adnoddau’n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflwyno’r ddeddfwriaeth. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion ac, os bydd y Bil hwn yn mynd rhagddo, byddem yn disgwyl i’r wybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i ddiweddaru yn dilyn trafodion Cyfnod 2.<br><br>**Casgliad 2.** Rydym yn ailadrodd galwadau blaenorol bod yn rhaid i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion i'n galluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Mae’r rhain yn cynnwys yr holl filiau a gyflwynwyd yn y Senedd gan Lywodraeth Cymru, Aelodau unigol a Phwyllgorau. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n deall siom y Pwyllgor y gallai fod diffyg gwybodaeth wedi bod ar gostau rhai elfennau o'r Bil. Fodd bynnag, fel Aelod unigol, byddai bron yn amhosibl darparu costau cywir ar gyfer elfennau o Fil sy'n destun strategaeth genedlaethol a rheoliadau dilynol yn y dyfodol, heb ymgysylltu’n sylweddol â swyddogion Llywodraeth Cymru gyda chaniatâd y Gweinidog.<br><br>Cafodd y Bil ei ddrafftio'n fwriadol fel Bil fframwaith, gan roi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu darpariaethau allweddol. Byddai hyn yn cynnwys (er enghraifft) y manylion a gynhwysir mewn Rheoliadau yn y dyfodol. Roedd caniatáu i Lywodraeth Cymru gael rheolaeth dros y cyfnod 'eilaidd' hwn yn hanfodol. Er ei bod yn bosibl ymgysylltu â rhanddeiliaid i amcangyfrif costau gweinyddol y Bil, ni fyddai wedi bod yn bosibl i mi ddarparu costau cywir ar gyfer sawl elfen o'r Bil.<br><br>Rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor bod yn rhaid i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion. Fodd bynnag, wrth gytuno ar hyn, rhaid cofio bod yr amcangyfrif gorau sy'n 'bosibl' i Aelodau unigol ei gynnwys ar gyfer eu Biliau yn debygol o fod yn llai cynhwysfawr na'r amcangyfrifon y gallai Llywodraeth Cymru ei hunan eu cyflwyno. O ran y Bil Bwyd (Cymru), credaf mai'r amcangyfrifon a ddarparwyd gennyf oedd yr amcangyfrifon gorau a oedd yn bosibl o ystyried yr adnoddau a oedd ar gael i mi fel Aelod unigol o'r Senedd. |


Senedd Cymru
Welsh Parliament
Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol, yn ymrwymo i gynorthwyo Aelodau unigol a/neu Bwyllgorau sy'n cynnig deddfwriaeth drwy ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol cyn cyflwyno Bil i sicrhau bod costau mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i Gasgliadau 1 a 2, byddai bron yn amhosibl i Aelodau unigol ddarparu costau cywir, neu weithiau unrhyw gostau o gwbl, ar gyfer rhai elfennau o Fil, sy'n amodol ar bwerau i wneud rheoliadau yn y dyfodol yn seiliedig ar strategaeth genedlaethol heb ei llunio eto, heb gael cymorth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gallaf hefyd weld yr anhawster o safbwynt y Llywodraeth o ran darparu'r costau hynny cyn eu cyflwyno. Byddai gan yr argymhelliad hwn oblygiadau o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru wrth ddarparu'r cymorth hwnnw.<br><br>Fel y dywedais yn ystod y gwaith craffu, roedd wastad angen rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn Bwyd roi cyfarwyddyd ar elfennau pwysig o'r Bil - byddai llawer ohonynt yn gofyn am wneud Rheoliadau yn ddiweddarach.<br><br>O ran y costau a gynhwysir ar gyfer yr elfennau hynny o'r Bil nad ydynt yn ddarostyngedig i Reoliadau yn y dyfodol, credaf fod y rhain wedi eu costio hyd eithaf fy ngallu. Hoffwn ddiolch i'r holl bobl a helpodd o ran costau, mewn sefydliadau ledled Cymru a swyddogion yn yr Alban. Roedd yr ymgysylltiad a gawsom gyda'r sefydliadau hynny yn ddefnyddiol iawn. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ailasesu ac yn diweddaru'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar y costau diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban) 2022. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol yn barod, rhoddais ymrwymiad yn ystod y gwaith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) yng Nghyfnod 1 y byddwn yn ymgysylltu ymhellach â swyddogion yn Llywodraeth yr Alban wrth i'r Bil fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y Senedd. Rwyf hefyd yn cyfeirio'r Pwyllgor at fy llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, dyddiedig 4 Mai – lle rwyf yn ailadrodd yr ymrwymiad hwn. Rwy'n gwerthfawrogi bod y Pwyllgor wedi cyfeirio at y llythyr hwnnw a anfonwyd ar 4 Mai yn yr adroddiad Cyfnod 1 hwn er iddo gael ei anfon yn hwyr yn amserlen Cyfnod 1. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â maint a chwmpas y Comisiwn Bwyd, gan gynnwys nifer y staff sy'n ofynnol i'w gefnogi, ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Byddwn yn croesawu'n fawr y cyfle i drafod maint a chwmpas y Comisiwn Bwyd wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r broses ddeddfwriaethol. Os bydd angen diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad, byddaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth wedi ei diweddaru a'i chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Casgliad 3.** Ni all y Pwyllgor ddod i farn ynghylch a fyddai'r Bil yn arwain at ddyblygu gyda Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yr arbenigedd neu'r capasiti i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol sy'n ymwneud â'r Bil, o ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar y mater hwn. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Mae'n siomedig na allai'r Pwyllgor ddod i farn ar hyn. Credaf yn gryf, fel y gwnaeth nifer o randdeiliaid allweddol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, y byddai'r Bil Bwyd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cyd-fynd â'i gilydd, ac yn gweithredu mewn ffordd a fyddai'n ategu ei gilydd. Byddai gan Gomisiynau Cenedlaethau'r Dyfodol rôl i'w chwarae hefyd wrth helpu i siapio'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn y dyfodol, er enghraifft.<br><br>O ran a oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yr arbenigedd neu'r gallu i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol yn ymwneud â'r Bil, roedd yn amlwg iawn i mi o drafodaethau a gefais gyda'r Comisiynydd nad oedd hi o'r farn bod hynny'n bosibl. Mae hyn yn rhywbeth a godais yn benodol yn ystod Cyfnod 1. Nid wyf wedi cael cyfle i drafod y Bil gyda'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd, ond byddwn yn barod i wneud hynny wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r broses. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell cael asesiad effaith llawn gyda'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol ac y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y Senedd yn cael cyfle i gynnal gwaith craffu ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyn. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Er nad yw hyn yn ofyniad a nodir ar wyneb y Bil, dylai fod yn ddisgwyliedig y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad effaith o unrhyw 'bolisi' newydd y mae'n ei weithredu. Byddai hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal rhagor o waith yn dadansoddi buddion costau'r Bil ac y dylid diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, gan gynnwys sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Fel yr amlinellais yn fy ymateb i gasgliadau 1 a 2, mae'n anodd iawn i Aelodau unigol ddarparu costau cywir ar gyfer pob elfen o'r Bil heb gymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i'r manteision posibl, gan y byddai llawer yn dibynnu ar weithredu'r Ddeddf. Credaf fod yr wybodaeth a roddais am y manteision cost mor llawn ag y gallai fod bryd hynny.<br><br>Mae hyn hefyd yn cysylltu ag Argymhelliad 4, lle mae'r Pwyllgor wedi galw am asesiad effaith llawn o'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol. Bydd y costau a'r buddion llawn yn cael eu hasesu orau ochr yn ochr â'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a'r asesiad effaith a gaffaelwyd.<br><br>Mae hefyd yn debygol y bydd y Bil yn cael ei ddiwygio yng Nghyfnodau 2 a 3, a fyddai'n cael effaith ar y costau a'r manteision posibl. Gan hynny, unwaith eto, y peth gorau fyddai ailasesu'r rhan orau unwaith y bydd y camau diwygio wedi eu cwblhau. |
| **Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi manylion y cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ymgymryd â gwaith i weithredu cynlluniau bwyd lleol, a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo ystod bosibl o gostau sy'n codi o'r Bil. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Derbyn yn rhannol**<br>Mae'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil wrth ei gyflwyno yn cynnwys enghreifftiau o gyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ymgymryd â gwaith ar gynlluniau bwyd lleol / strategaethau bwyd cymunedol, ac ati. Fodd bynnag, gallaf weld budd ehangu'r wybodaeth hon felly byddaf yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyda manylion pellach ac yn eu cyhoeddi fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cam 2 y broses.<br><br>Fodd bynnag, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (paragraff 326) nid oedd yn bosibl mesur cost **gweithredu** cynlluniau bwyd lleol heb wybod manylion llawn yr hyn sy'n ofynnol yn y cynlluniau hynny. O ran manylion cynlluniau bwyd lleol:<br>(a) rhaid nodi sut byddai'r 'targedau bwyd' yn cael eu cyflawni, ond byddai'r targedau hynny'n cael eu gosod drwy Reoliadau yn ddiweddarach yn y broses, a<br>(b) rhaid hefyd rhoi sylw i'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol.<br><br>Gan hynny, ni fyddai darparu costau cywir – neu hyd yn oed amrywiaeth gywir o gostau - ar gyfer gweithredu cynlluniau bwyd lleol yn bosibl gan nad yw'r manylion angenrheidiol hynny yn hysbys eto. Gan hynny, gwrthodir y rhan hon o'r argymhellion. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r materion a godwyd yn Argymhelliad 4 lle mae'r costau'n cysylltu'n ôl â'r Strategaeth. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn diweddaru’r costau o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol dros gyfnod arfarnu o ddeng mlynedd i ganiatáu ar gyfer cynnwys costau mwy cyflawn yn ymwneud â chynlluniau bwyd lleol. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y costau mewn perthynas â'r adolygiad pum mlynedd o gynlluniau bwyd yn disgyn y tu allan i’r amserlen ar gyfer pennu costau'r asesiad effaith hwn.<br><br>O ran yr adolygiad pum mlynedd o gynlluniau bwyd lleol, byddai angen y rhain cyn diwedd cyfnod o 5 mlynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y cyhoeddir y cynllun cyntaf. Mae'n rhaid i'r cynlluniau eu hunain gael eu gwneud o fewn dwy flynedd i'r Ddeddf ddod i rym. Gan hynny, o fewn cyfnod arfarnu deng mlynedd, dim ond un adolygiad o gynlluniau bwyd lleol fyddai ar gael.<br><br>Fel y gŵyr y Pwyllgor, roedd darparu costau dros gyfnod o 5 mlynedd yn gyson â Biliau Aelodau blaenorol. Er fy mod i’n gwybod y byddai'r cyfnod adolygu pum mlynedd y tu allan i hyn, nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol amcangyfrif ar gyfer adolygu cynlluniau bwyd lleol. Nodir ym mharagraff 381 y Memorandwm Esboniadol:<br><br>*“Rhaid adolygu’r strategaeth bob 5 mlynedd. Byddai hyn y tu allan i’r amserlen 5 mlynedd ar gyfer amcangyfrif costau. Fodd bynnag, ni fyddai’r costau’n sylweddol. Er enghraifft, amcangyfrifodd y Bil Cenedl Bwyd Da y byddai’r diweddariad 5 mlynedd ac ymgynghoriad ar y strategaeth yn costio rhwng £12,549 a £17,549."*<br><br>Ni fyddai cynnwys yr wybodaeth hon o fewn cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd yn rhoi manylion ychwanegol ar yr amcangyfrif posibl ar gyfer adolygu cynlluniau bwyd lleol. |

**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a
Gogledd Cymru, a’r Trefnydd

31 Mai 2023

Bil Bwyd (Cymru)

Annwyl Lesley,

Rwy’n ysgrifennu atoch yn sgil methiant y Bil Bwyd (Cymru) ar 24 Mai. Yn ystod y ddadl dan sylw, roeddwn yn falch o glywed eich bod yn cefnogi nodau eang y Bil a’ch bod am fanteisio ar y momentwm y mae Peter Fox wedi’i greu ynghylch polisi bwyd drwy’r Bil hwn. Yn unol â’r hyn sydd wedi’i amlinellu yn ein hadroddiad, roedd y Pwyllgor hefyd yn llwyr gefnogi nodau polisi’r Bil.

Fel y gwyddoch, gwnaethom ddrafftio adroddiad y Pwyllgor ar yr egwyddorion cyffredinol mewn modd a oedd yn caniatáu inni gynnwys argymhellion polisi y gellid eu dilyn pe bai’r Bil yn syrthio. A fyddai modd i chi amlinellu eich cynllun i fanteisio ar y momentwm a grëwyd gan Peter ac ymateb i’r argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad: 2, 4, 6, 8, 9, 10, 12, 16, a 17?

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Peter Fox yn rhinwedd ei rôl fel yr Aelod sy’n gyfrifol am y Bil; at Huw Irranca-Davies yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad; ac at Peredur Owen Griffiths yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

seneddeconomy@senedd.cymru

25 Mai 2023

Annwyl Paul,

Rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn yn dilyn fy ymateb i Argymhellion 8, 9 a 10 o Adolygiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("y Rheoliadau"). Rwy'n dymuno rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch cynigion ar gyfer mesurau amgen a wnaed mewn perthynas â Rheoliad 45.

Rwyf wedi ystyried pob cyflwyniad yn ofalus. Ar hyn o bryd, nid wyf yn gallu penderfynu gyda digon o sicrwydd a fyddai'r cynigion a gafwyd yn fwy effeithiol wrth gyflawni'r canlyniadau yn Rheoliad 44(1) o ran lleihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol, na'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynigion yn dangos addewid ac yn adlewyrchu'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud yn eu datblygu. Rwyf am archwilio'r cynigion hyn yn fanylach cyn gwneud penderfyniad terfynol.

O fewn y cyflwyniadau a gafwyd, mae cynigion y credaf y gallant fod â'r potensial i fod yn fwy effeithiol o ran lleihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol na'r mesurau presennol. Rwy'n bwriadu i'r cynigion hyn gael eu hasesu ymhellach ac i fod yn destun ymgynghoriad fel rhan o adolygiad 4 blynedd o'r Rheoliadau.

Trwy gynnwys y cynigion hyn yn yr adolygiad 4 blynedd cyntaf bydd modd cynnal asesiad manwl pellach i sicrhau bod unrhyw newidiadau posibl i'r Rheoliadau yn cael eu hystyried yn gyfannol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymhlith y cynigion sydd i'w cynnwys yn yr adolygiad 4 blynedd mae:

- Rheoliad 3 – Egluro mai effliant o dail dofednod yw slyri, i hwyluso cydymffurfiaeth.
- Rheoliadau 12 a 13 – Bydd y gofynion sy'n ymwneud â phryd i daenu gwrtaith a thaenu ger dŵr wyneb yn gymwys i bob gwrtaith, nid gwrtaith nitrogen yn unig.
- Rheoliad 16 – Diffinio ystyr 'corfforir' mewn perthynas â chorffori tail organig yn y ddaear a chynnwys sofl indrawn yn ogystal â phriddoedd moel.
- Rheoliad 21 – Ehangu'r cyfyngiadau ar ôl cyfnodau gwaharddedig i fod yn gyson ar gyfer pob tail organig gyda nitrogen sydd ar gael yn rhwydd iawn.
- Rheoliad 23 – Egluro bod unrhyw ddiferion yn cael eu diffinio fel slyri a phennu bod yn rhaid eu storio, i hwyluso cydymffurfiaeth.
- Rheoliad 24 – Er mwyn darparu cysondeb, dylid storio safleoedd silwair maes a/neu eu hagor neu eu dad-lapio 50 metr i dwll turio, ffynnon neu bydew ac nid o fewn Parth Gwarchod Tarddiad Dŵr y Ddaear 1. Rhaid i berson cymwys nodi dyluniad ac adeiladwaith y storfa.
- Rheoliad 25 – Rhoddir mwy o eglurder i adlewyrchu bod rhaid storio pob math o slyri i gynorthwyo cydymffurfiaeth. Rhaid i berson cymwys nodi dyluniad ac adeiladwaith y storfa.
- Rheoliad 26 – Amnewid yr eithriad sy'n galluogi seilos a storfeydd slyri a adeiladwyd cyn 199 i barhau i gael eu defnyddio, gyda threfn arolygu diogelwch sy'n ofynnol o fewn amserlenni priodol.
- Rheoliad 27 – Rhoddir mwy o eglurder yn y rheoliadau ar ofynion tomenni mewn caeau i gynorthwyo cydymffurfiaeth, gan gynnwys mewn perthynas â thail dofednod heb sarn.
- Rheoliad 29 – Rhoddir eglurder i adlewyrchu bod angen storfa ddigonol er mwyn bodloni holl ofynion y rheoliadau, i gynnwys tail wedi'i fewnforio.
- Rheoliad 32 - Cynyddu'r cyfnod hysbysu ar gyfer system storio seilo neu slyri newydd, i o leiaf 30 diwrnod cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, gyda gwybodaeth ychwanegol i gael ei darparu ar y manylebau dylunio a chapasiti a'r union leoliad.
- Cynnwys mesurau i amddiffyn priddoedd rhag erydiad yn seiliedig ar Gyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da 5 o drawsgydymffurfio.

Mae cynigion eraill sydd, yn fy marn i, yn gofyn am ddatblygiad neu ystyriaeth bellach cyn y gellir gwneud unrhyw asesiad ar eu heffeithlonrwydd. Bydd fy swyddogion yn cysylltu ymhellach gyda chynigwyr i archwilio'r cynigion penodol hyn yn fanylach. Efallai y bydd y cynigion hyn hefyd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adolygiad 4 blynedd, yn dilyn ymgysylltu pellach â chynigwyr.

Mae'r cynigion a fydd yn cael eu harchwilio ymhellach yn cynnwys:

- Rheoliadau 6 i 10 – Cynnwys yr holl wrteithiau o fewn gwaith cynllunio rheoli maetholion a chyfyngiadau cnydau. Caniatáu ceisiadau nitrogen ychwanegol i system ddwys, gylchdroadol sy'n seiliedig ar bori, fesul bob tro y torrir porfa 3 gwaith y flwyddyn.

- Rheoliad 11 - Marcio Parthau Gwarchod Tarddiad Dŵr y Ddaear (SPZ) ar fapiau risg.

- Rheoliadau 13 a 14 – Gwell perthynas rhwng parthau clustogi a ffactorau risg.

- Rheoliad 15 – Lleihau uchder mwya'r gwrtaith sy'n taenu â thaflwybr, ar gyfer pob gwrtaith.

- Rheoliadau 18, 19 a 22 – Dewisiadau amgen i'r cyfnodau gwaharddedig ar gyfer gwrtaith a weithgynhyrchwyd a thail organig.

- Rheoliadau 24 a 25 – Rheolaethau ar storfeydd o dan y ddaear mewn perthynas â'r parth annirlawn.

- Rheoliad 28 – Ystyried pryd na ddylai'r gyfran hylifol o slyri sydd wedi'i wahanu gael ei ddosbarthu fel slyri mwyach, gan ystyried arloesedd technolegol.

- Rheoliadau 36 i 40 – Darparu cofnodion data ar-lein a chynnwys ffosfforws o fewn y gofynion hyn.

Yn olaf, roedd llawer o'r cynigion a gafwyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau i ganllawiau. Er bod y rhain allan o gwmpas y broses mesurau amgen, mae'r argymhellion hyn hefyd wedi'u hasesu a bydd nifer yn cael eu hystyried ymhellach gyda rhanddeiliaid.

Fel y mae'r Aelodau yn gwybod, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â Cefin Campbell, aelod dynodedig Plaid Cymru, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Chair of the ETRA Committee

Welsh Senedd

Cardiff

15th May 2023

Dear Chair of the ETRA Committee,

I am writing, on behalf of a group of forage maize seed breeders, to bring to your attention one of the unfortunate impacts of Brexit coming to a head this December which could have a significant negative impact on the ability of Welsh farmers to grow forage maize.

**Seed Treatments**

Currently, the forage maize seed (and some other crop seeds) we use in the UK is produced in Europe, and pre-treated with an appropriate fungicide to safeguard it against root zone diseases such as seedling blight, and a bird repellent to discourage corvids such as crows from taking out the seed once planted.

However, at the end of 2023, the import of such treated seed into the UK, and the use of seed already imported, will be illegal since the products are not licenced by CRD/SHE in this country. As part of the European Union free market, seed treated with a crop protection product has free movement across Member State boundaries irrespective of whether the product is registered in a particular Member State as long as it was applied to the seed in a Member State that does have a registration for it. Now that the UK is no longer a member of the EU, such rules do not apply and, as of 31 December 2023, it will be illegal to import, sell or sow seed treated with Kori (zorim) bird deterrent, Redigo M (triticonazole + metalaxyl) fungicide and Force (tefluthrin) insecticide.

The industry has been aware of the problem and has been striving to identify alternatives over the last 2 years but have failed to come up with suitable replacements during this time, a situation exacerbated by a seeming reluctance of the UK regulators to consider seed treatments.

**The Impact**

The situation is not a trivial one: a lack of suitable bird repellent can result in the total loss of the crop. Corvids are intelligent birds and quickly understand seed drilling patterns. For example, in the

photograph below, the crows were able to identify which plots were untreated and moved down the rows, learning the distance between seeds and taking almost all of them.




Likewise, a similar effect is observed on these trial forage maize plots in Clwyd in north Wales; note that the area surrounding the plots is also forage maize, with the seed having been treated with a bird repellent. The corvids ignore the treated areas and moved into the trial plots, focussing on areas where untreated seed had been planted. The result being almost 100% loss of the crop.



The danger is that farmers and growers turn away from the growing of forage maize, a high-density nutritious feedstock both for the dairy and livestock sectors, and for the anaerobic digestion industry for energy production.

**The Solution**

Current alternatives include a huge increase in the use of bird scarers, with the accompanying noise pollution, or control of corvids by shooting; neither of which make sense in today's agriculture.
A delay in the implementation of this end-of-year cut-off date would give the industry time to seek an alternative solution. Such delays have already been successfully implemented in the case of

chemicals under REACH legislation and for re-approvals of pesticides already registered for use. If that is not possible, a derogation on the use of the products under Article 53 (so-called emergency use) would also be possible. However, given the lack of success of initial discussions with CRD/HSE, a political solution to the problem needs to be sought urgently to initially highlight this issue and then to "encourage" DEFRA to increase the priority of the issue.

This is a big issue for Welsh farmers who grow nearly 15,000 hectares of forage maize a year. Members of the seed sector and other organisations including NFU, AIC, BSPB and NIAB are working together to seek a solution to this problem but DEFRA needs to understand that this is a serious issue and I wondered if you might raise this issue with the Welsh Government to ask the DEFRA Secretary of State to intervene on this matter.

I would be delighted to brief you further on this issue which I hope you will agree is a very serious one.

Yours Faithfully



Dr Julian Little FRSB
Tel: 07900 276 999
Email | LinkedIn | Twitter | Instagram

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/1347/23

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

26 Mai 2023

Annwyl Paul

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod wedi rhoi cymeradwyaeth i Lywodraeth y DU wneud Offeryn Statudol sy'n cynnwys elfennau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Bydd Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023 (Gorchymyn 2023) yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 (Gorchymyn 2008), Offeryn Statudol ar gyfer y DU gyfan, yn dilyn ymgynghoriad wedi'i dargedu â'r diwydiant a rhanddeiliad a oedd yn cynnwys y DU gyfan.

Rwy'n cytuno, yn yr achos hwn, i roi cymeradwyaeth i'r Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig wneud diwygiadau i Orchymyn 2008. Sefydlwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth drwy Orchymyn 2008, o dan bwerau yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC).

Mae Gorchymyn 2023 yn diwygio Gorchymyn 2008, ac mae'n cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87, 88 a 97(1) o Ddeddf NERC, a pharagraff 6(a) o Atodlen 8 a pharagraffau 5 ac 8 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Mae adran 87 o Ddeddf NERC yn rhoi'r pŵer i'r "awdurdod priodol" wneud Gorchymyn sy'n sefydlu corff at ddiben neu ddibenion sydd o fewn adran 88 (dibenion caniatadwy byrddau) ac aseinio swyddogaeth neu swyddogaethau iddo sydd o fewn adran 89 (swyddogaethau caniatadwy byrddau).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ôl diffiniad adran 96(1) o Ddeddf NERC mae "awdurdod priodol" yn cynnwys, mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru yn unig, Cynlluniad Cenedlaethol Cymru (a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30(2) i Atodlen 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru). Mae adran 96(1)(e) yn nodi y gall yr Ysgrifennydd Gwladol (gan weithredu gyda chymeradwyaeth y llywodraethau datganoledig) fod yr "awdurdod priodol" mewn perthynas â materion y cyfeiriwyd atynt yn adran 96(2). Mae'r rhain yn cynnwys arfer pwerau mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd. Y diffiniad o "swyddogaethau trawsffiniol" yw swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwnaed Gorchymyn 2008 gan yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chymeradwyaeth y llywodraethau datganoledig). At y dibenion presennol, ystyrir bod y diwygiadau a wnaed gan Orchymyn 2023 yn y categori "arfer pwerau eraill mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd".
Mae'r cyfnod yr wyf yn rhoi cymeradwyaeth ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i daith Gorchymyn 2023.

O dan adran 96(1) o ddeddf NERC, mae Gweinidogion Cymru yn "awdurdod priodol" ac mae ganddynt y pŵer i ddeddfu mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, gan y bydd y diwygiadau'n effeithio ar swyddogaethau trawsffiniol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chymeradwyaeth y llywodraethau datganoledig) yw'r awdurdod priodol wrth wneud gorchymyn o'r fath.

Mae buddiannau Cymru yn parhau i gael eu diogelu yn ystod taith Gorchymyn 2023, sydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru drafod a mireinio Gorchymyn 2023 gyda chymheiriaid yn DEFRA, Llywodraeth yr Alban a DAERA, gan gynnwys datblygu'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion sydd wedi llywio cynnwys y Gorchymyn. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gydnabod bod meysydd lle mae Gorchymyn 2023 yn berthnasol i Gymru o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae swyddogion DEFRA wedi bod yn ymwybodol o'r angen i geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer Gorchymyn 2023, ac maent wedi cydweithredu'n llawn â swyddogion wrth i'r gorchymyn gael ei ddrafftio, ac wedi adlewyrchu sylwadau yn y Gorchymyn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Cofion**,**



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Eitem 3.16

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid

26 Mai 2023

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu

Annwyl Peredur

Diolch am wahodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i ymgysylltu â'ch gwaith ar ddogfennaeth Cyllideb Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidogion. Nid oes gennym unrhyw beth i'w ychwanegu ar hyn o bryd, ond edrychaf ymlaen at gynrychioli'r Pwyllgor yn y ddadl ar flaenoriaethau gwariant ar 12 Gorffennaf a byddwn yn dilyn eich gwaith â diddordeb.

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Ymateb Llywodraeth Cymru i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i gronfeydd datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE**

**Dyddiad –** Dydd Iau 8 Mehefin 2023
**Teitl –** Cronfeydd datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

## Trosolwg

- Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am y trefniadau cyllido ar ôl gadael yr UE.

- Mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yr UE[1] werth £2.1bn i Gymru, gan arwain at dros £3bn o fuddsoddiad gyda'i gilydd. Hyd yma, mae'r rhaglenni hyn wedi creu 33,900 o swyddi newydd a 6,700 o fusnesau newydd, wedi cefnogi 19,300 o fusnesau, wedi helpu 40,800 o bobl i gael gwaith ac wedi helpu pobl i ennill 152,000 o gymwysterau.

- Roedd maniffesto etholiad 2019 Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ddarparu cyllid yn lle cyllid blaenorol yr UE ym mhob un o wledydd y DU ac y byddai'r cyllid newydd hwnnw "o leiaf gyfwerth". Nid yw wedi anrhydeddu'r ymrwymiad hwn sy'n wedi cael ei ailadrodd droeon.

- Mewn gwirionedd mae dull Llywodraeth y DU yn tynnu cyllid i ffwrdd o feysydd datganoledig y mae'r Senedd wedi penderfynu arnynt ers dechrau datganoli.

- Cafodd y Gronfa Ffyniant Gyffredin ei dylunio i gymryd lle cyllid yr UE ond mae ei chwmpas yn llai ac yn gulach; er enghraifft, nid oes blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi.

- Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU i benderfynu gwario'r Gronfa Ffyniant Bro ar brosiectau lleol yng Nghymru hynny mewn meysydd datganoledig.

## Colli £1bn o Gyllid yr UE

1. Ar 4 Mai 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig[2] yn amlinellu'r cyllid sydd wedi cael ei golli yng Nghymru oherwydd trefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer darparu cyllid yn lle cyllid yr UE.

2. Yn gryno, dyrannwyd £2.1bn i Gymru ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yr UE yn ystod 2014-2020. Byddai'r rhain wedi bod yn werth £1.404bn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025, gan ganiatáu ar gyfer chwyddiant a chyfraddau cyfnewid yn yr un modd ag y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud wrth gyfrifo lefel Cyllid Cronfa Ffyniant

[1] Mae hyn yn cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop
[2] [Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE (4 Mai 2022) | LLYW.CYMRU]

Gyffredin y DU i’w ddyrannu i Gymru.

3. Byddai’r cyllid hwn yn ychwanegol at daliadau parhaus a wnaed o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu prosiectau mewn blynyddoedd blaenorol o dan raglenni 2014-2020.

4. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ar 13 Ebrill 2022 y bydd Cymru’n cael £585m drwy ei chynllun i ddarparu cyllid yn lle cyllid yr UE, sef y Gronfa Ffyniant Gyffredin, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cynnwys £101m sy’n cael ei frigdorri gan Lywodraeth y DU i gefnogi rhaglen rhifedd i oedolion o’r enw Lluosi.

5. Ynghyd â’r £47m o gynllun peilot Cronfa Adnewyddu Cymunedol 2021-22, bydd Cymru’n cael £632m o gyllid yn ystod y cyfnod yn lle’r cyllid blaenorol, sef diffyg o £772m.

6. Ar ben hyn, wrth ddarparu cyllid yn lle cyllid ffermio’r UE, mae Llywodraeth y DU yn tynnu taliadau’r UE sy’n ddyledus i Gymru am waith a oedd yn rhan o raglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae hyn yn golygu bod cymunedau gwledig Cymru £243m yn waeth eu byd na phe baem wedi aros yn yr UE.

7. Gyda’i gilydd, mae’r golled o £243m mewn cyllid gwledig a’r diffyg o £772m yng nghronfeydd strwythurol yr UE yn rhoi cyfanswm sydd ychydig dros £1bn. Gan ddefnyddio’r un addasiad chwyddiant i gyllid gwledig â’r cronfeydd strwythurol, mae’r diffyg cyffredinol yng nghyllideb Cymru dros £1.1bn.

8. Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys colli cyllid oherwydd i golli mynediad Cymru at raglenni cyllido eraill yr UE, gan gynnwys Erasmus, Horizon Ewrop a Chydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid sy’n cyfateb yn llawn i’r cyllid hwn.

**Dyluniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

9. Ar ôl canlyniad Refferendwm 2016 ynghylch yr UE, aeth Llywodraeth Cymru ati i weithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid a’r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i ddatblygu model newydd ar gyfer buddsoddi cronfeydd a fyddai’n cymryd lle cronfeydd yr UE.

10. Cafodd y Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol ei gydgynhyrchu a’i gyhoeddi yn 2020 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yn cynnwys cyfran o gyllid ac ymreolaeth i lywodraeth leol, a mynediad uniongyrchol at gyllid ar gyfer sectorau anllywodraethol.

11. Cafodd y broses ei goruchwylio gan grŵp llywio cynrychioliadol o dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AS ac roedd yn seiliedig ar ymrwymiadau na fyddai Brexit yn golygu colli cyllid na phwerau datganoledig.

12. Cafodd cynllun Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid yn lle cyllid yr UE, sef y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 2017. Ni chafodd Llywodraeth

Cymru fewnbwn na rôl yn y gwaith o ddylunio na datblygu'r gronfa cyn ei lansio ym mis Ebrill 2022.

13. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig fformiwla i ddyrannu arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin gyda phwysoliad o 70% i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru er mwyn dosbarthu cyllid yn deg ar draws Cymru yn ôl yr angen economaidd. Yn lle hynny, mae Llywodraeth y DU yn defnyddio fformiwla sy'n rhoi pwysoliad o 30% i MALIC, pwysoliad poblogaeth o 40%, a phwysoliad o 30% i'w mynegai Cronfa Adfywio Cymunedol ei hun (y gronfa beilot i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin).

14. Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn sianelu cyllid drwy awdurdodau lleol yn unig ac mae'n gwneud hynny'n flynyddol. Mae hyn yn golygu nad yw hi bellach yn bosibl ariannu prosiectau strategol dros nifer o flynyddoedd a gefnogwyd gynt gan gronfeydd yr UE.

15. Mae dyluniad lleol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn golygu nad oes modd parhau i ddarparu cyllid i brosiectau sy'n gweithredu ar draws Cymru gyfan. Roedd prosiectau o'r fath yn arfer cael eu cefnogi gan gyllid yr UE. Mae hyn yn cynnwys prosiectau fel Busnes Cymru, y rhaglen Prentisiaethau, cynlluniau cyllid busnes sy'n cael eu rhedeg gan Fanc Datblygu Cymru a Chronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC a oedd yn cefnogi pobl agored i niwed i gael gwaith a hyfforddiant.

16. Mae sectorau y tu allan i lywodraeth leol yn cael gwneud cais am gyllid ond mae ffocws culach y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael yn golygu bod llawer llai o botensial i fuddsoddi yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach, busnes a'r trydydd sector.

17. Mae blaenoriaethau buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gulach na rhaglenni Cronfa Strwythurol yr UE. Er enghraifft, cafodd tua £380m o raglenni 2014-2020 yr UE ei fuddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi. Nid yw hwn yn faes buddsoddi cymwys. Mae hyn yn golygu na fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cyllid i fuddsoddiadau ymchwil ac arloesi gwerth miliynau o bunnoedd sy'n cefnogi cydweithio rhwng busnesau a'r byd academaidd i sicrhau twf.

18. O ganlyniad, mae amrywiaeth o sectorau wedi sôn eu bod wedi gorfod colli llawer iawn o swyddi a chau prosiectau allweddol mewn meysydd gan gynnwys datgarboneiddio, ynni adnewyddadwy a sgiliau diwydiannol.

19. Er enghraifft, mae'r Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu yn cael ei harwain gan Brifysgol Abertawe ac mae'n cefnogi Doethuriaethau Peirianneg sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant a Graddau Meistr Ymchwil ym maes gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch. Dechreuodd yr Academi yn 2015 gyda £16.6m o gyllid yr UE, a daw i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r busnesau sydd wedi cymryd rhan wedi cynnwys TATA Steel, BASF, y Bathdy Brenhinol a Weartech International.

20. Mae'r trydydd sector hefyd yn poeni am y diffyg cyfle i gymryd rhan yn y ffordd mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei darparu, yn enwedig o ran penderfynu lle mae angen y cymorth fwyaf ar gymunedau a phobl agored i niwed. Ar ben

hynny, mae’r sector yn sôn am y cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer prosiectau rhanbarthol oherwydd bod awdurdodau lleol yn cael dyraniadau unigol a bod amserlenni’r Gronfa Ffyniant Gyffredin o ran ceisiadau a phenderfyniadau yn wahanol. Mae’r trydydd sector yn ofni felly bod yr arbenigedd a’r enghreifftiau da iawn o gymorth sydd ar gael i gymunedau a phobl agored i niwed mewn perygl o gael eu colli a byddent yn croesawu cyfleoedd i gael eu cynnwys ac ymgysylltu’n well wrth ddarparu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

21. Mae dyluniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn addas i brosiectau lleol llai, tymor byr sy’n debyg i’r dull a fabwysiadwyd ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2000-2006. Roedd gwersi a ddysgwyd o’r gwerthusiad annibynnol wedi arwain at gefnogi prosiectau mwy a rhai mwy strategol yn rhaglenni 2007-2013 a 2014-2020 i greu mwy o effaith economaidd a gwaddol.

**Gweithredu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin**

22. Roedd yn rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau buddsoddi i’r Gronfa Ffyniant Gyffredin rhwng 30 Mehefin ac 1 Awst 2022. Cafodd y rheini wedyn eu hasesu gan weision sifil y DU. Gweinidogion yn Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau y DU oedd wedyn yn penderfynu ar y ceisiadau.

23. Roedd yn rhaid i lywodraeth leol gynnull partneriaeth leol yn ystod y broses o ddatblygu a chyflawni eu cynlluniau buddsoddi. Roedd Llywodraeth y DU yn mynnu bod cynrychiolwyr o amrywiol sectorau ar y partneriaethau hyn, yn ogystal ag Aelodau Seneddol. Nid oedd gofyniad i gynnwys Aelodau’r Senedd.

24. Roedd Llywodraeth y DU i fod i gymeradwyo cynlluniau a dechrau talu ym mis Hydref 2022; fodd bynnag, er bod cynlluniau wedi cael eu cyflwyno mewn da bryd erbyn 2 Awst 2022, dim ond ar 5 Rhagfyr cafodd y cynlluniau eu cymeradwyo gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

25. Cafodd cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 (gwerth £74m) ei ryddhau i awdurdodau lleol ddiwedd mis Ionawr 2023. Cafodd tua £15m ei ddal yn ôl i ddechrau gan Lywodraeth y DU oherwydd problemau parhaus ynghylch y gallu i gyflawni ei rhaglen *Lluosi*.

26. Cawn ar ddeall y bydd y £15m yn cael ei ryddhau i’w wario yn 2023/24; fodd bynnag, mae ffocws cul Lluosi yn parhau a fydd yn ei gwneud hi’n anodd i awdurdodau lleol wario’r dyraniadau Lluosi yn llawn.

27. Er nad oes darlun cyffredinol mewn rhanbarthau ac ar draws rhanbarthau, mae awdurdodau lleol yn defnyddio’r cyllid i gefnogi prosiectau llywodraeth leol ac maent wedi agor rowndiau cyllido’n raddol ar gyfer sectorau allanol. Mae’r rowndiau cyllido hyn wedi cael eu hagor ar adegau gwahanol gyda threfniadau gwahanol a meini prawf asesu gwahanol. Mae nifer yn dweud bod y galw am gyllid yn llawer mwy na’r cyllid sydd ar gael.

28. Bydd angen i weithgareddau prosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 2024 er mwyn cwblhau’r holl wariant erbyn 31 Mawrth 2025.

Mae hyn yn golygu, er ei fod yn gynllun tair blynedd, mai dim ond tua 18 mis fydd ar gael i gyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

29. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi llywodraeth leol o dan gryn bwysau drwy fynnu ei bod yn gweinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Llywodraeth leol sydd bellach yn gyfrifol am reoli disgwyliadau'r sector cyhoeddus, y sector addysg uwch/addysg bellach, y sector busnes a'r trydydd sector. Mae'r rhain wedi elwa'n sylweddol o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddiadau'r UE ac maent i gyd yn chwilio am gyllid yn lle cyllid yr UE a hynny o gronfa lai o lawer.

30. Mae'r pwysau hyn yn waeth oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi bod yn araf yn lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn cymeradwyo cynlluniau buddsoddi ac yn rhyddhau'r arian.

31. Oherwydd pwysau amser, llai o gyllid ac amserlenni cyflawni byr, mae awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i gefnogi prosiectau tymor byr nad ydynt y rhai gorau ac mae iddynt lai o botensial economaidd na'r prosiectau a gefnogwyd drwy Gronfeydd Strwythurol yr UE.

32. Does dim rôl ffurfiol i Lywodraeth Cymru ei chwarae yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan fod yr holl benderfyniadau allweddol (dyluniad y rhaglenni, lefelau'r cyllid, y fethodoleg dyrannu, y blaenoriaethau buddsoddi a'r ffocws ar lywodraeth leol) wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU cyn lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ym mis Ebrill 2022.

33. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i osgoi cymaint â phosibl o ddyblygu mewn meysydd fel cymorth sgiliau a busnes. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth Huw Irranca-Davies AS, i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd ymysg partneriaid yng Nghymru.

34. Fodd bynnag, gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn gwasanaethu'r un cynulleidfaoedd ac o ystyried maint a nifer y prosiectau sydd bellach ar waith, mae amgylchedd nad yw gyda'r gorau i ddarparu sgiliau a chymorth i fusnesau wedi cael ei greu.

35. Rydym hefyd wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ein blaenoriaethau cyllideb i gynnal ein hymrwymiad i gynlluniau Prentisiaethau a Busnes Cymru a oedd gynt wedi elwa o gymorth cyllid yr UE. Er enghraifft, rydym yn buddsoddi £20.9m ychwanegol y flwyddyn o gyllid Llywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2025 i lenwi'r bwlch ac ymestyn gwasanaeth craidd Busnes Cymru y tu hwnt i ddiwedd cyllid yr UE eleni.

36. Rydym hefyd wedi cynyddu'r cyllid ymchwil sydd ar gael drwy CCAUC a'i gronfa ymchwil o ansawdd i brifysgolion, ac rydym yn parhau i weithio gyda CCAUC ar sut i gynyddu faint o grantiau cystadleuol sy'n cael eu hennill yn system ymchwil Cymru.

**Lluosi**

37. Mae'r cynllun rhifedd Lluosi, sy'n rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn tresmasu ymhellach i faes polisi datganoledig.

38. Ar ben hynny, er bod Llywodraeth y DU yn defnyddio'r gronfa i gefnogi ei chynlluniau ei hun ar draws y DU, nid yw'n rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru ariannu cynlluniau ar draws Cymru – er bod cyllid yr UE wedi cefnogi amrywiaeth o raglenni sgiliau a busnes hanfodol ar hyd a lled Cymru.

39. Mae rhifedd oedolion wedi'i ddatganoli ac mae Lluosi yn gweithredu mewn cystadleuaeth uniongyrchol â darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Mae hefyd yn peri risg o ddyblygu gwaith y rhaglen Sgiliau Hanfodol Cymru sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Bydd hyn yn golygu bod dysgwyr yng Nghymru yn wynebu ystod ddryslyd a chymhleth o opsiynau.

**Y Gronfa Ffyniant Bro**

40. Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn enghraifft arall o Lywodraeth y DU yn defnyddio pwerau cymorth ariannol Deddf Marchnad Fewnol y DU i benderfynu ar wariant yn uniongyrchol mewn meysydd datganoledig gan osgoi Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

41. Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn cymryd lle Cronfa Trefi Lloegr. Fe'i cyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant y DU ym mis Tachwedd 2020 fel mesur ar gyfer Lloegr y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn swm canlyniadol Barnett ar ei gyfer.

42. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu'r Gronfa Ffyniant Bro ar draws y DU heb unrhyw ymgynghori na chyfathrebu ymlaen llaw. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw rôl yn natblygiad y Gronfa hon na'r broses o'i chyflwyno.

43. Yn rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Bro (2021), llwyddodd chwe awdurdod lleol yng Nghymru (Rhondda Cynon Taf, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Wrecsam) i sicrhau cyllid ar gyfer 10 cais a oedd werth cyfanswm o £121m. Roedd y ceisiadau aflwyddiannus yng Nghymru werth £172m.

44. Yn ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro (2023), llwyddodd 11 awdurdod lleol yng Nghymru (Ynys Môn, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Torfaen) gydag un cais yr un gan roi cyfanswm o £208m. £582m oedd cyfanswm y ceisiadau aflwyddiannus.

45. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU brosiectau llwyddiannus yr ail rownd ar 19 Ionawr 2023 er bod disgwyl cael y cyhoeddiad yn ystod hydref 2022. Mae'r oedi hwn

wedi rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol ac yn golygu bod cynnydd mewn chwyddiant yn effeithio ar brosiectau.

46. Nid yw Sir y Fflint, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd na Bro Morgannwg wedi cael unrhyw gyllid eto o ddwy rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Bro.

47. Disgwylir y drydedd rownd a’r rownd olaf yn 2024. Mae’n debyg y bydd hon yn llai o lawer na’r ddwy rownd gyntaf o ystyried bod tua £1bn ar ôl ar draws y DU o gyfanswm dyraniad cyllid tair blynedd y Gronfa Ffyniant Bro, sef £4.8bn.

48. Mae disgwyl i brosiectau’r Gronfa Ffyniant Bro ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024 ac mae’n rhaid cwblhau’r cyllid erbyn 31 Mawrth 2025 (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol).

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR YR ECONOMI, MASNACH A MATERION GWLEDIG**

**8 MEHEFIN 2023**

**DYFODOL GWEITHGYNHYRCHU I GYMRU: PWYNTIAU GWEITHREDU**

**Cyflwyniad**

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu (Cynllun Gweithredu) cyntaf ym mis Chwefror 2021, ar ôl ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid. Mae'n seiliedig ar saith amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae wedi darparu fframwaith sydd wedi meithrin cydweithio ac wedi helpu i gydlynu cymorth Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar weithgynhyrchu. Mae wedi fframio ein gwaith i ddatgarboneiddio'r diwydiant, gan gynnwys sefydlu Diwydiant Sero Net Cymru, a'n Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net. Rydym wedi gweld Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru yn ffynnu ac mae gweithgareddau fel WRAP Cymru a'n rhaglen Clystyrau Darbodus Toyota yn helpu busnesau i gynyddu cynhyrchiant a lleihau gwastraff drwy sefydlu economi gylchol ac egwyddorion darbodus.

Roedd y Cynllun yn ymdrech 10 mlynedd, ond roeddem yn cydnabod y gallai digwyddiadau lleol, cenedlaethol a byd-eang olygu bod angen ei ddiwygio. Ddwy flynedd ar ôl ei lansio, mae'r sector wedi wynebu heriau mawr: cystadleuaeth fyd-eang, ffrwydrad o dechnolegau, trefniadau masnachu newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd, pandemig COVID-19, yr argyfwng hinsawdd, cost gynyddol ynni, oedi oherwydd problemau morgludo sydd wedi tarfu ar gadwyni cyflenwi byd-eang, prinder deunyddiau crai, cynnydd mewn prisiau a phroblemau difrifol o ran argaeledd llafur. Felly, roedd yn bryd diwygio ac adnewyddu'r cynllun. Cafodd y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu diwygiedig ei gyhoeddi ar 2 Mai.
https://www.llyw.cymru/dyfodol-gweithgynhyrchu-i-gymru-fframwaith-gweithredu-0

Mae'r canlynol yn crynhoi rhywfaint o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gwreiddiol.

1. **Parhau i fonitro effaith y cynllun hwn ar gyfle cyfartal a'i ymgorffori ym mhob agwedd ar y gwaith.**

Mae gennym nifer o gynlluniau ar wahanol gamau datblygu sy'n cwmpasu ein hymrwymiad llwyr i fynd ar drywydd cydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. O dan y Dyletswyddau Penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae hyn yn cynnwys 8 Amcan Cydraddoldeb, sy'n cael eu hategu gan nifer o gamau gweithredu mesuradwy sy'n ymwneud â 6 maes 'A yw Cymru'n Decach?' (2018).

Amlygwyd yr effaith wirioneddol a gafodd pandemig COVID-19 ar bobl anabl yn glir mewn adroddiad a oedd yn deillio o drafodaethau yn Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cymru: 'Drws ar glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19'. Mae 5 prif bennod i'r adroddiad, sef y Model Cymdeithasol o anabledd yn erbyn y 'Model Meddygol o Anabledd'; 'Hawliau Dynol'; 'Iechyd a Llesiant'; 'Anfanteision Economaidd-gymdeithasol' ac 'Allgáu', 'Hygyrchedd

a Dinasyddiaeth'. Mewn ymateb i'r canfyddiadau, rydym wedi sefydlu Tasglu Hawliau Pobl Anabl i benderfynu pa gamau pellach y mae angen eu cymryd i ddileu'r anghydraddoldebau y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Mae meysydd blaenoriaeth wedi'u nodi, sy'n cynnwys mynediad at wasanaethau, tai fforddiadwy a hygyrch, cyflogaeth ac incwm, byw'n annibynnol (gan gynnwys iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol) a gwell dealltwriaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd

Bydd camau gweithredu o ran sgiliau a gwaith teg yn effeithio ar y maes hwn ac rydym yn edrych ar ystadegau sy'n benodol i'r sector gweithgynhyrchu, sy'n ein helpu i fesur cynnydd.  O ran dadansoddi ystadegau, rydym ar gam cymharol gynnar yn y cynllun.

2. **Comisiynu arolwg mapio ac o'r gallu gweithgynhyrchu yng Nghymru ar gyfer dadansoddiadau PESTLE a SWOT o'r gymuned.**

Gweler pwynt 3.

3. **Cynnal dadansoddiad o'r bylchau o ran cynhyrchion penodol y mae galw mawr amdanynt yng Nghymru ac y gellid eu cynhyrchu yng Nghymru o bosibl.**

Cafodd Wavehill Limited eu comisiynu yn 2016 i gynnal 'archwiliad iechyd' o'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, gan edrych ar gyfleoedd, heriau ac ymddygiadau dros amrywiaeth o bynciau gan gynnwys strategaeth fusnes, masnach ac allforio, sgiliau ac arloesedd.

Cafodd y cwmni ei ailbenodi yn 2022 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sector gweithgynhyrchu, gan gynnwys tueddiadau dros y 6 blynedd diwethaf, ac i archwilio pynciau newydd fel datgarboneiddio a digidoleiddio (Diwydiant 4.0). Roedd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn sail i'r trafodaethau bord gron gyda Diwydiant, y Byd Academaidd ac Undebau a'r gwaith o adnewyddu'r cynllun yn y pen draw.  Mae gwaith yn parhau i nodi meysydd cynnyrch lle mae rhagor o gyfleoedd i leoleiddio'r cyflenwad ac mae hyn yn cael sylw yn y camau gweithredu sy'n ymwneud â mapio'r gadwyn gyflenwi a'r economi sylfaenol.

4. **Gwneud gwaith i sicrhau bod rhagor o nwyddau fel bwyd a PPE yn cael eu caffael yn lleol, a chynyddu gallu busnesau lleol, gan gynnwys y rheini yn yr Economi Sylfaenol**

Gweler y sylwadau o dan bwyntiau 10 ac 11.

Cafodd Brookdale Consulting eu comisiynu i gynnal arolwg bwyd ar draws y sector cyhoeddus i ganfod bylchau cyflenwi a'r potensial i ddatblygu gallu cyflenwi lleol. I ddechrau, mae'r wybodaeth hon yn sail i waith i gynyddu cyfran y cynnyrch lleol mae modd ei ddefnyddio i gefnogi'r Ddarpariaeth Gyffredinol o Brydau Ysgol am Ddim. O safbwynt ehangach, mae'r data a ddatblygwyd drwy Brookdale Consulting yn sail i ddatblygu strategaeth ar gyfer caffael bwyd yn gyhoeddus. Y nod yw cynyddu faint o fwyd a gynhyrchir yn lleol sy'n cyrraedd platiau'r sector cyhoeddus.

Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i ddadansoddi cynlluniau buddsoddi ar gyfer datgarboneiddio tai a thrafnidiaeth yn y dyfodol er mwyn gallu mapio'r galw am gynnyrch yn y dyfodol yn erbyn y capasiti cyflenwi lleol presennol. Bydd y gwaith hwn yn sail i waith datblygu cyflenwyr yn y dyfodol i sicrhau bod cnewyllyn o fusnesau lleol sydd â chymwysterau addas, fel bod effaith economaidd a chymdeithasol y buddsoddiadau hyn yn cael ei chynyddu i Gymru.

Mae tîm Masnachol a Chaffael Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau caffael ar waith sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i agor cyfleoedd i ymgysylltu â chynhyrchwyr iwnifformau a dillad lleol. Rydym wrthi'n hyrwyddo defnyddio'r trefniant hwn ymhlith prynwyr allweddol yn y sector cyhoeddus.

5. **Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth brosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol i helpu busnesau lleol, gan gynnwys y rheini yn yr Economi Sylfaenol**

Mae'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau Cronfa Her yr Economi Sylfaenol wedi cyfrannu at ddatblygu ein dull o gyflwyno'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol.

Mae cyflenwyr bwyd lleol yn cael eu cefnogi gyda chyllid i dalu am gostau achrediad diogelwch hylendid bwyd, sy'n hanfodol i gymryd rhan mewn trefniadau i gyflenwi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae gwaith peilot a wnaed yn y sector tai wedi nodi dull sy'n helpu i gysylltu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig â busnesau lleol y mae'n anodd dod o hyd iddynt. Drwy'r cynllun peilot byr hwn, cafodd Cymdeithas Tai Caredig ei chefnogi i ddod o hyd i bum contractwr lleol newydd sydd bellach yn ymwneud â'u rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio. Mae'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu o'r dull hwn yn cael eu hystyried gyda'r bwriad o weithredu hyn yn ehangach gyda rhagor o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Mae bron i hanner cant o gartrefi gofal preswyl wedi cael cyllid grant i fuddsoddi mewn cynnyrch carbon isel sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnyrch wedi cael eu gosod gan gontractwyr lleol a byddwn yn gwerthuso'r cynllun grant hwn i ddod o hyd i gyfleoedd i dyfu'r gallu i weithgynhyrchu'r cynnyrch hyn yn lleol.

6. **Adolygu'r map rhanddeiliaid allweddol a chategoreiddio ymgysylltiad (Hysbysu/Ymgynghori/Cymryd Rhan).**

Cafodd ymgysylltu â rhanddeiliaid ei adolygu fel rhan o'r adnewyddu ac ystyrir sefydlu Grŵp Cyflawni Diwygiedig gyda rhanddeiliaid o Ddiwydiant, y Byd Academaidd ac Undebau yn cymryd rhan.

7. **Canolbwyntio ar ddau sbardun i berfformiad cwmnïau; strategaeth a gweithredu – y dewisiadau strategol a wneir, y strwythur sefydliadol dilynol a'r adnoddau a ysgogir i gyflawni'r strategaeth. Ystyried rôl risg o ran gwneud a pheidio â gwneud penderfyniadau strategol.**

Gweler pwynt 6.

8. **Creu cymunedau o'r arferion gorau gydag arweinwyr ar draws y sector gweithgynhyrchu, sy'n barod i rannu ag eraill ac i ddysgu oddi wrth gyrff fel MIT. Cynnwys sianeli i wasanaethau enghreifftiol fel y Fforwm Arweinwyr ac Academi Cymru gan ganolbwyntio ar yr effaith ar les pobl Cymru.**

Gweler pwynt 6.

9. **Cymharu ein perfformiad gweithgynhyrchu â'r arfer gorau yn rhanbarthau tebyg yn y DU ac yn fyd-eang. Defnyddio'r data i lywio pecynnau cymorth i wella cynhyrchiant a chystadleurwydd.**

Mae rhywfaint o hyn wedi cael ei wneud drwy'r archwiliad iechyd o'r sector a oedd yn nodi cryfderau a chyfleoedd inni dargedu ein cymorth. Er enghraifft, nododd yr arolwg bwysigrwydd cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ynni, yn enwedig o ran delio â chostau ynni. Hyd yma mae 160 o gyfranogwyr o 50 cwmni wedi cymryd rhan yn rhaglen Darbodus Toyota. Rydym yn bwriadu ymestyn hyn drwy gomisiynu rhaglen feincnodi desg a fydd yn meincnodi yn erbyn chwe amcan strategol y Cynllun Gweithredu diwygiedig. Bydd hyn yn helpu i ddod o hyd i feysydd lle mae angen inni gynnal dadansoddiad manylach.

10. **Nodi pa gynhyrchion, deunyddiau crai a chydrannau sy'n hanfodol i les Cymru ac edrych sut y gallwn sicrhau cyflenwadau a byrhau cadwyni cyflenwi os bydd argyfwng byd-eang fel pandemig COVID-19.**

Rydym wedi nodi meysydd blaenoriaeth ac rydym yn comisiynu gwaith i fapio'r gadwyn gyflenwi yn y maes hwn. Gweler 11 isod.

Bydd y gwaith i ddatblygu strategaeth bwyd sector cyhoeddus yn helpu i nodi llinellau bwyd critigol lle mae potensial i leoleiddio cynhyrchu a sefydlu cadwyni gwydn sy'n gallu gwrthsefyll effaith argyfyngau byd-eang.

11. **Mapio'r gadwyn gyflenwi i nodi'r bylchau all fod yn gyfleoedd y gellir eu hyrwyddo. Targedu gwaith hyrwyddo i fuddsoddwyr newydd mewn meysydd penodol.**

Ar gyfer y sector gweithgynhyrchu, rydym wedi cwblhau cam cyntaf darn o waith ar wahân ar fapio'r gadwyn gyflenwi er mwyn cael gwell dealltwriaeth o allu, cadernid a chyfleoedd angori'r gadwyn gyflenwi bresennol. I ddechrau roedd hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu platfform ar-lein sy'n seiliedig ar ffynonellau data cyhoeddus yn bennaf, gan sefydlu gwaelodlin o gwmnïau sydd eisoes yn gweithredu ar draws nifer o is-sectorau gweithgynhyrchu: *Ynni Adnewyddadwy, Tai, Gofal Iechyd/Gwyddorau Bywyd, Adeiladu, Bwyd a Diod, Trafnidiaeth, Amddiffyn a chaffael cyhoeddus.*

Yn y Cynllun Gweithredu diwygiedig rydym wedi cadw'r cam gweithredu hwn ar fapio'r gadwyn gyflenwi er mwyn bwrw ymlaen â cham dau a fydd yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol mewn nifer o feysydd:

- Byddwn yn ehangu'r gronfa ddata i gynnwys yr holl gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru (gan gynnwys y rheini sydd â phencadlys yn rhywle arall) ac yn

cynnwys pwyntiau data ychwanegol (gan gynnwys gwybodaeth ariannol) er mwyn gallu dadansoddi'n fanylach.

- Byddwn yn treialu'r adnodd hwn ar nifer o brosiectau penodol i helpu i fapio cadwyni cyflenwi ac i chwilio am gyfleoedd i fyrhau'r cyflenwad a meithrin gallu, yn enwedig mewn meysydd lle ceir cyfleoedd yn y dyfodol fel Ffermydd Gwynt Arnofiol.
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â GwerthwchiGymru er mwyn gallu chwilio'r platfform drwy ddefnyddio'r Eirfa Caffael Gyffredin.

Yn y sector bwyd, rydym wedi ariannu mapio'r gadwyn gyflenwi yn Sir Fynwy, sy'n canolbwyntio ar raglen cadernid bwyd Sir Fynwy. Mae hyn wedi eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth, hyd at lefel ward, am gapasiti/gallu cynhyrchu bwyd ar hyn o bryd. Mae'n helpu hefyd i gyfrannu at y potensial i'r cyngor weithio gyda'r busnesau hyn i addasu neu i newid eu cynnyrch ar sail cyfleoedd yn y galw yn y dyfodol. Gellir ailadrodd y dull hwn ar draws Cymru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth caffael bwyd ar draws y sector cyhoeddus a fydd yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan Brookdale Consulting sydd wedi dadansoddi gwariant y sector cyhoeddus ar fwyd ar draws Cymru. Bydd y strategaeth yn helpu i ganfod cyfleoedd ar raddfa ddigonol a allai gymell cyflenwyr presennol a newydd i ddatblygu gallu lleol.

**12. Targedu gwaith hyrwyddo i fuddsoddwyr newydd mewn meysydd penodol.**

Fel rhan o'n gwaith parhaus i fapio'r gadwyn gyflenwi, rydym yn nodi prosiectau mawr a meysydd gwariant, a byddwn yn defnyddio'r data hwn i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer buddsoddwyr newydd.

**13. Ystyried argymhellion Adolygiad Brown ar glystyrau ynghyd â gwybodaeth o'r arolwg o gapasiti a gallu gweithgynhyrchu a defnyddio'r data i nodi cryfderau Cymru a blaenoriaethu clystyrau.**

Rydym wedi lansio 'Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach'. Bydd y Strategaeth Arloesi newydd hon yn blaenoriaethu'r pethau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf i Gymru, gan dargedu ein cymorth yn unol â 'chenadaethau' penodol. Bydd ein dull gweithredu'n canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: Addysg, yr Economi, Iechyd a Llesiant, a Hinsawdd a Natur. Bydd Cynllun Gweithredu ar gyfer Arloesi yn cael ei ddatblygu, a fydd yn nodi nifer fach o nodau ym mhob maes cenhadaeth, y camau y byddwn yn eu cymryd gyda phartneriaid, mesurau a cherrig milltir tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

**14. Sefydlu rhwydwaith Cymru gyfan o glystyrau i rannu'r arferion gorau a chydweithio.**

Mae ein fforymau diwydiant (gan gynnwys Diwydiant Cymru) yn darparu rôl hanfodol ac effeithiol sy'n dod â rhanddeiliaid perthnasol at ei gilydd ar draws amrywiaeth o glystyrau. Er enghraifft, mae Technology Connected yn gweithio'n agos gyda'r clwstwr lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd, ac mae Diwydiant Cymru a Make

UK (Cymru) yn gweithio'n agos gyda'r rhwydwaith Catapwlt Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth ar draws y DU.

**15. Ystyried anghenion busnesau gweithgynhyrchu wrth gynllunio darparu adeiladau i fusnesau.**

Mae stoc adeiladau masnachol newydd yn chwarae rhan bwysig fel catalydd, gan annog deiliaid i fuddsoddi mewn offer a pheiriannau newydd i wella cynhyrchiant.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae gan Gynllun Cyflenwi Eiddo Llywodraeth Cymru darged i ddarparu 300,000 troedfedd sgwâr y flwyddyn o ofod llawr ar gyfer cyflogaeth newydd a safleoedd cyflogaeth sy'n barod ar gyfer buddsoddiad mewn lleoliadau blaenoriaeth ar hyd a lled Cymru. Mae dros 800,000 troedfedd sgwâr o adeiladau newydd a 125 erw o safleoedd sy'n barod am fuddsoddiad naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill drwy gyfuniad o ymyriadau uniongyrchol, cymorth grant i'r sector preifat a chydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Yn ogystal â'r safleoedd neu'r eiddo 'iawn' sydd ar gael, rhaid inni ystyried sut gall cwmnïau ehangu ac arallgyfeirio o'u safleoedd presennol yn ogystal ag addasu adeiladau i fod yn fwy effeithlon o ran ynni, lleihau carbon a chefnogi ein dyheadau ehangach i gyrraedd Sero Net erbyn 2050. Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn amlinellu ein dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer cefnogi twf cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru.

Enghraifft amlwg o hyn yw safle datblygu Tŷ Du sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sydd i'r de o Nelson (Caerffili, De Cymru). Cafodd cynllun mawr i wneud gwaith galluogi seilwaith priffyrdd, gan gynnwys gosod gwasanaethau a ffyrdd ystad, ei gwblhau'n llwyddiannus ar y safle yn 2019. Roedd hyn yn paratoi'r ystad gyfan ar gyfer datblygiadau preswyl a masnachol, gan gynnwys darparu cartrefi fforddiadwy. Cafodd ei gyllido drwy raglen Safleoedd Cyflogaeth Strategol Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

Ail gam y datblygiad ehangach ar safle Tŷ Du yw Whitebeam Court a gwblhawyd yn 2021. Mae'r bartneriaeth menter ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Llywodraeth Cymru. Cafodd yr unedau eu hariannu'n rhannol gan ERDF drwy Lywodraeth Cymru a phartneriaid y fenter ar y cyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r 11 uned yn Whitebeam Court, sydd wedi'u lleoli mewn pedwar teras, wedi denu busnesau o safon ac maent i gyd yn llawn. Mae'r datblygiad hwn yn enghraifft o greu'r seilwaith angenrheidiol sydd ei angen ar fusnesau, fel y nodir yn y Cynllun Cyflenwi Eiddo.

Mae'r Cynllun Cyflenwi Eiddo, sy'n ceisio darparu seilwaith eiddo i fusnesau ar draws Cymru, yn cydnabod y diffyg eang yn y farchnad yn y sector diwydiannol gyda lefelau uchel o ddeiliadaeth, galw cryf a chyflenwad cyfyngedig o ofod llawr. Hyd yma mae'r Cynllun Cyflenwi Eiddo wedi gallu darparu dros ½ miliwn troedfedd sgwâr o adeiladau cyflogaeth newydd a thros 130 erw o safleoedd sy'n barod am fuddsoddiad ar gyfer busnes.

16. **Rhoi sylw i anghenion gweithgynhyrchu wrth gynllunio gwelliannau trafnidiaeth, seilwaith ynni, seilwaith economi gylchol a seilwaith cyfathrebu.**

Yn unol â phwynt 15, mae hyn yn rhan o'r dull strategol o gynllunio yng Nghymru a nodir yn Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru.

Er nad yw cludo llwythi a logisteg wedi'u datganoli i Gymru, mae'r sector hwn yn eithriadol o bwysig i lesiant economaidd-gymdeithasol Cymru. Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (2023) yn nodi ein bwriad i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a chyrff allweddol y sector i fynd i'r afael â rhai o'r prif broblemau yng Nghymru drwy gynllun strategol newydd ar gyfer Cludo Llwythi a Logisteg. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion gweithgynhyrchu wrth gynllunio gwelliannau trafnidiaeth.

17. **Edrych ar ofynion cynllunio cwmnïau sydd am ehangu, arallgyfeirio neu ddechrau. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio gorchmynion datblygu lleol, datblygiad a ganiateir a defnyddio ardaloedd er lles y cyhoedd.**

Mae trafodaethau bwrdd crwn wedi nodi nifer o faterion sy'n ymwneud â chynllunio ac mae'r rhain yn cael sylw.

18. **Gweithio gyda chynhyrchwyr bwyd yng Nghymru a'r clwstwr o gwmnïau pecynnu bwyd yng Ngogledd Cymru i ddefnyddio Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru fel canolfan arloesi ym maes pecynnu bwyd, gan gysylltu â chyfleoedd newydd yng nghadwyn gyflenwi economi amaethyddol Cymru.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £2m yn AMRC Cymru sydd wedi eu galluogi i sefydlu Canolfan Cynaliadwyedd Pecynnau Bwyd a Diod. Bydd hyn yn hyb i ddefnyddio technolegau a deunyddiau datblygol yn y gadwyn gyflenwi pecynnu bwyd a diod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael y Rhwydwaith Clwstwr Bwyd am ddwy flynedd arall. Bydd y rhwydwaith yn canolbwyntio ar hybu cydweithio ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, a sicrhau bod cynhyrchwyr yn gweithio gyda mentrau eraill Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chanolfannau Arloesi Bwyd a phartneriaid academaidd eraill i sicrhau bod y gwasanaethau maent yn eu cynnig yn cyd-fynd ag anghenion y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru.

19. **Dadansoddi gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gaffael, gan gynnwys cadwyni cyflenwi, i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu yng Nghymru.**

Rydym yn dadansoddi gwariant caffael cyhoeddus i gyfrannu gwybodaeth at ein camau gweithredu ar fapio'r gadwyn gyflenwi.  Dyma un o'r nifer o ffynonellau data sy'n cael eu defnyddio.

20. **Darparu polisi, canllawiau, offer a hyfforddiant (fel TOMS) i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel bod arferion caffael yn cefnogi gweithgynhyrchu cynaliadwy ac yn sicrhau gwerth cymdeithasol gwell yng Nghymru**.

Mae Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru yn nodi'n glir ein polisi i hybu rhagor o gaffael yng Nghymru ac ystyried gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol wrth wneud penderfyniadau caffael.

Cafodd diweddariad i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021, yn amlinellu'r weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r datganiad yn ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn arferion caffael ac yn nodi deg egwyddor i gaffael llesiant i Gymru, sy'n cynnwys cynyddu'r canlyniadau gwerth cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy yn y tymor hir o ganlyniad o wariant cyhoeddus (Egwyddor 1) a defnyddio pŵer prynu sector cyhoeddus Cymru i gefnogi busnesau lleol drwy strategaethau caffael sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol (Egwyddor 5).

Mae amrywiaeth o Nodiadau Polisi Caffael Cymru wedi cael eu cyhoeddi sy'n nodi gwybodaeth, canllawiau ac arferion gorau ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys WPPN 07/21, sy'n annog cyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gadw tendrau gwerth isel ar gyfer busnesau bach a chanolig, mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, a chyflenwyr mewn ardaloedd daearyddol penodol.

Mae'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd yn adnodd sydd ar gael i sector cyhoeddus Cymru sy'n annog defnyddwyr i feddwl am eu caffael cynaliadwy a'i wella. Mae'r adnodd wedi cael ei ddylunio i helpu prynwyr yn y sector cyhoeddus i fabwysiadu dull meddylfryd cylch bywyd wrth gaffael sy'n ystyried pob agwedd o'r deunyddiau crai a ddefnyddir hyd at ddiwedd eu defnydd, gwaredu a gwastraff. Wrth wneud hynny, mae'n cefnogi'r WPS i fodloni Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Cyhoeddwyd amrywiaeth o adnoddau caffael bwyd ym mis Tachwedd 2022 i ddatblygu gallu'r sector cyhoeddus i wreiddio dulliau gweithredu sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni gwerth economaidd a chymdeithasol lleol. Mae'r adnodd 'Prynu Bwyd yn Addas at y Dyfodol' yn dwyn ynghyd sawl darn o waith, gan gynnwys:

- 'Values for Money: public sector food procurement in Wales' a gynhyrchwyd gan yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, sy'n darparu safbwynt arbenigol ar gyflenwad bwyd y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae argymhellion yr adroddiad yn rhoi sylw i'r prif faterion sy'n wynebu'r system fwyd ar hyn o bryd a fydd, drwy roi sylw iddynt gyda'i gilydd, yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.
- 'Harnessing the Purchasing Power of the Public Plate: A Legal Guide to Improving Sustainability in Food Procurement for a Healthier Wales', sy'n darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i ddatgelu'r gwir a rhoi eglurder er mwyn hybu dulliau mwy arloesol a chreadigol o gaffael bwyd. Mae hyn yn gallu helpu i gynyddu'r cyflenwad o fwyd cynaliadwy, lleol o fewn cyfyngiadau

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac yn helpu i gyflawni nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er bod yr adnoddau hyn wedi cael eu datblygu ar gyfer caffael bwyd, mae'r egwyddorion yr un mor berthnasol mewn meysydd eraill. Gallwn hyrwyddo'r rhain yng nghyd-destun caffael sy'n cefnogi'r sector gweithgynhyrchu.

**21. Datblygu a chyflwyno dull cyfrifol/moesegol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat o gaffael deunyddiau crai a chydrannau ar gyfer cynhyrchion a weithgynhyrchir yng Nghymru fel bod ein holl weithgynhyrchwyr yn 'gyfrifol yn fyd-eang'.**

Mae Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi bod drwy'r broses o graffu deddfwriaethol yn y Senedd a bydd yn cael effaith anuniongyrchol ar weithgynhyrchwyr yng Nghymru, yn bennaf drwy ei ddyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol. Mae cysylltiad agos rhwng y dyletswyddau caffael a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn canolbwyntio'n benodol ar reoli contractau a rheoli'r gadwyn gyflenwi. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth.

**22. Mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o adael yr UE drwy addasu'r cymorth a ddarperir i sicrhau cydnerthedd y gadwyn gyflenwi.**

Gweler 19 gwaith mapio'r gadwyn gyflenwi.

**23. Parhau i fonitro effaith y cynllun hwn ar y Gymraeg a diwylliant Cymru a newid y camau yn y cynllun i ymateb i anghenion sy'n newid.**

Rydym yn edrych ar y ffynonellau data gallwn eu defnyddio i fonitro cynnydd yn y maes hwn. Bydd hyn yn gofyn am fesurau tymor hir i adlewyrchu'r effaith yn gywir.

**24. Dod â chymorth i arloesi, ymchwil a datblygu at ei gilydd, a buddsoddi mewn cyfleusterau fel AMRC ac ATRC i helpu i ddiogelu dyfodol ein cymuned weithgynhyrchu.**

Mae AMRC Cymru wedi bod yn llwyddiannus dros ben o ran meithrin ymchwil mwy cydweithredol a gwreiddio technolegau a phrosesau Diwydiant 4.0 yn ein cwmnïau gweithgynhyrchu. Mae AMRC wedi cefnogi rhaglen dechnoleg adenydd y dyfodol Airbus sydd gyda'r gorau yn y byd a thros 30 o fusnesau bach a chanolig ar draws 16 o brosiectau.

Mae rhaglen alluogi ddigidol fawr ar gyfer busnesau bach a chanolig ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn cefnogi 60 o weithgynhyrchwyr eraill dros y 18 mis nesaf. Mae'r prosiect 'Ffatri 4.0' yn un enghraifft o werth go iawn y cymorth hwn. Mae'n brosiect ar y cyd rhwng AMRC Cymru, Airbus a chwmnïau bwyd a diod Cymru (The Pudding Compartment a Distyllfa Hensol), gan ddefnyddio offer digidol i greu 'ffatri'r dyfodol', gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a lleihau costau ynni ac ôl troed carbon i gyflawni'r rhaglen BITES a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**25. Cydweithio i hyrwyddo cyfleoedd i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ddefnyddio ein cyfleusterau a deunyddiau a gasglwyd i ailddefnyddio**

**cynhyrchion ac i ail-weithgynhyrchu, a gweithgynhyrchu mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.**

Mae rhaglen waith ar y cyd yn cael ei chynnal i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ledled y DU ar gyfer pecynnu. Bydd y cynllun yn sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol am roi deunydd pecynnu ar y farchnad yn talu'r costau net llawn am y gwaith rheoli gwastraff ar ôl i'r deunydd pecynnu gael ei ddefnyddio. Bwriedir dechrau codi ffioedd ar fusnesau yn 2024.

Rhwng 2019 a 2022, roedd WRAP wedi cydweithio â thros 20 o sefydliadau partner, gan gynnwys busnesau yng Nghymru, i gyflawni pedwar prosiect cadwyn gyflenwi. Nod y prosiectau oedd goresgyn y rhwystrau masnachol a thechnegol i ddefnyddio mwy o ddeunyddiau ôl-ddefnydd wedi'u hailgylchu i weithgynhyrchu cynnyrch meddygol ac adeiladu gwydn, eitemau cartref, a chynwysyddion deunyddiau peryglus yng Nghymru. Roedd y treialon yn ceisio dangos manteision economaidd ac amgylcheddol newid i ddull mwy cylchol. Prosiectau o Fewn y Gadwyn Gyflenwi Blaenorol | WRAP (wrapcymru.org.uk)

Mae tri threial newydd wedi cael eu comisiynu'n ddiweddar Prosiectau Cadwn Gyflenwi Newydd | WRAP (wrapcymru.org.uk)

Bydd Cymru, ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon, hefyd yn cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd yn 2025.

**26. Hyrwyddo manteision allweddol cyllid arloesi prosesau, trosglwyddo gwybodaeth ac ymchwil, datblygu ac arloesi.**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddull cyflawn o hyrwyddo arloesedd a throsglwyddo gwybodaeth, gan gynnwys cylchlythyr Arloesi (15k o danysgrifwyr), cyfrif Arloesi ar Twitter (10k o ddilynwyr), a chyfnodolyn chwarterol sy'n hyrwyddo gweithgareddau gwyddoniaeth a thechnoleg (Advances Wales ), a chefnogi dirprwyaethau tramor, gweithgareddau cynadleddau ac ymgysylltu â rhaglenni arloesi'r UE fel y Vanguard Initiative.

Ers 2021 hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 76 o brosiectau ymchwil a datblygu SMART yn ei meysydd Her Fawr gweithgynhyrchu (Peirianneg a Deunyddiau Uwch, TGCh a'r Economi Ddigidol, Gwyddorau Bywyd ac Iechyd, Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd), gyda chyllid o £4.6m a chyfanswm costau'r prosiect yn £9.8m.

Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom lansio 'Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach', canlyniad ymgynghori helaeth ar draws y llywodraeth, y diwydiant, partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid ehangach. Rydym yn cydnabod na allwn wneud popeth a bod yn rhaid i ni flaenoriaethu'r pethau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar Gymru, gan dargedu ein cymorth yn unol â 'chenadaethau' penodol a nodir ym mhwynt 13.

**27. Hyrwyddo manteision ymchwil, datblygu ac arloesi cydweithredol masnachol a wneir yng Nghymru drwy ddefnyddio rhwydwaith o lwybrau ariannu Cymru, y DU a rhyngwladol.**

Bydd y dull gweithredu sy'n seiliedig ar genhadaeth yn ein galluogi i chwarae rôl o gynnull, gan gefnogi ein hecosystem arloesi i ddatblygu cynigion ymchwil, datblygu ac arloesi sy'n fwy ac yn fwy cydlynol a grymus.

Ers blwyddyn ariannol 20/21 mae Cymru wedi defnyddio £194m gan Innovate UK ar draws 428 o brosiectau ymchwil a datblygu sy'n cael eu harwain gan fusnesau a 102 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan y byd academaidd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydariannu prosiectau arloesi ee SPECIFIC ym Mhrifysgol Abertawe, sydd wedi datgloi dros £500k gan Gynghorau Ymchwil y DU a thua £2m gan y Brifysgol.

**28. Cydweithio i adeiladu ar bartneriaethau a chreu partneriaethau newydd er mwyn sefydlu ecosystem sy'n cynnwys: cyllidwyr cenedlaethol a rhyngwladol; diwydiant; sefydliadau ymchwil; GIG Cymru; y sector addysg a hyfforddiant; ac asiantaethau eraill y llywodraeth fel y byrddau partneriaeth rhanbarthol.**

Bydd hyn yn helpu i wneud yn fawr o'r cyllid sydd ar gael i ni wrth i Gymru gystadlu am gyllid y DU yn lle'r cymorth blaenorol gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth wedi'i dargedu pan fydd angen neu gyfle penodol i Gymru.

Fel y nodir ym mhwyntiau 13 a 26, lansiodd Llywodraeth *Cymru'n Arloesi* ym mis Chwefror 2023. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ddatblygu Cynllun Gweithredu ar y cyd ar gyfer y Strategaeth.

**29. Gweithio i sicrhau arian ychwanegol ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi.**

Elfen allweddol arall sy'n sbarduno ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yw sut rydym yn manteisio i'r eithaf ar ein hasedau, fel Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru, sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran meithrin ymchwil mwy cydweithredol a gwneud technolegau a phrosesau Diwydiant 4.0 yn rhan annatod o'n cwmnïau gweithgynhyrchu. Mae AMRC wedi cefnogi rhaglen dechnoleg adenydd y dyfodol Airbus sydd gyda'r gorau yn y byd a thros 30 o fusnesau bach a chanolig ar draws 16 o brosiectau. Mae rhaglen alluogi ddigidol fawr ar gyfer busnesau bach a chanolig ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn cefnogi 60 o weithgynhyrchwyr eraill dros y 18 mis nesaf.

Cyfeirir at ragor o waith ym mhwynt 27.

**30. Mynd i'r afael â cholli talent drwy ariannu ymdrechion ar y cyd rhwng nifer o wahanol bartneriaid, gan gynnwys labordai cenedlaethol, sefydliadau ymchwil y sector cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus mawr fel GIG Cymru.**

Fel y nodir ym mhwyntiau 26, 27, 28, a 29, rydym yn ariannu ac yn cefnogi sawl ymdrech ar y cyd â phartneriaid. Mae hyn yn cael ei amlinellu ymhellach yn ein Cynllun Arloesi, 'Cymru'n Arloesi'.

31. **Datblygu rhagor o gymorth i weithgynhyrchu yng Nghymru, i arloesi a gwella'n barhaus.**

Un enghraifft o werth go iawn y cymorth hwn yw prosiect 'Ffatri 4.0' fel y nodir ym mhwyntiau 24 a 26.

AMRC adnabyddus Prifysgol Sheffield sy'n rhedeg AMRC Cymru. Mae'n rhan o'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth ac mae'n dynfa bwerus ar gyfer mewnfuddsoddi a datblygu sgiliau sy'n sbarduno twf economaidd rhanbarthol. Mae AMRC yn hyb ymchwil o'r radd flaenaf sy'n cefnogi 120 o bartneriaid diwydiannol byd-eang o bob maint yn uniongyrchol er mwyn bod yn fwy cynhyrchiol, datblygu cynnyrch gwell, defnyddio prosesau gwell a newid i economi garbon isel. Mae'n cynnwys cwmnïau fel Boeing, Rolls-Royce, BAE Systems ac Airbus, yn ogystal â busnesau bach a chanolig ar draws y wlad sy'n hanfodol i gadwyni cyflenwi byd-eang.

Ar ben hynny, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, mae WRAP wedi datblygu a diweddaru Adnodd Mapio Deunyddiau Cylchol i Gymru yn ddiweddar – adnodd hawdd ei ddefnyddio i randdeiliaid Cymru ar draws y cadwyni gwerth plastig, papur a phren. Mae'n rhoi darlun rhyngweithiol a gweledol o hyd a lled sectorau plastig, papur a phren Cymru, gan blotio lleoliadau busnes a helpu i ganfod lle mae clystyrau. Mae WRAP hefyd wedi darparu cymorth technegol i fusnesau Cymru i roi egwyddorion yr economi gylchol ar waith.

32. **Adolygu a chwyldroi buddsoddi mewn gyrfaoedd ymchwil ar gyfer diwydianwyr, clinigwyr ac academyddion clinigol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac mewn cynlluniau grantiau doethurol, ôl-ddoethurol ac i wyddonwyr gyrfa.**

Gweler pwyntiau 46,47,48,49, 50 a 51.

33. **Sefydlu mecanweithiau newydd sy'n cydnabod, annog a gwobrwyo 'gweledyddion' a 'hyrwyddwyr' ymchwil, datblygu, arloesi a defnydd cymhwysol.**

Gweler pwyntiau 46, 47, 48, 49, 50 a 51.

34. **Sefydlu labordai cenedlaethol newydd, sefydliadau ymchwil newydd yn y sector cyhoeddus a phartneriaethau cyhoeddus/preifat newydd i gefnogi'r 'gweledyddion' a'r 'hyrwyddwyr' hyn yn y dyfodol.**

Gweler pwyntiau 46, 47, 48, 49, 50 a 51.

35. **Bwrw ymlaen â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Allforio i sefydlu clystyrau allforio i feithrin capasiti a gallu i allforio.**

Cafodd y Clwstwr Allforio ei lansio ym mis Medi 2021 ac mae'n un o brif fentrau Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio. Yn ogystal â'r clwstwr Bwyd a Diod sydd eisoes yn bodoli, mae clystyrau allforio newydd wedi cael eu sefydlu mewn sectorau allforio allweddol gan gynnwys Technoleg Feddygol a Diagnosteg; Nwyddau Defnyddwyr; Technoleg; Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth; ac Ynni Adnewyddadwy

ac Ynni Glân. Mae tua 300 o gwmnïau wedi cofrestru, gyda phob clwstwr yn dod â busnesau at ei gilydd i rannu eu gwybodaeth a'u profiad a chanolbwyntio ar feysydd penodol i oresgyn rhwystrau i allforio.

Yn ystod 2022-23, mae pedwar ar hugain o allforwyr llwyddiannus o bob cwr o Gymru ('Esiamplau Allforio') wedi cael eu harddangos i ysbrydoli busnesau eraill i ddechrau allforio. Rydym hefyd wedi cefnogi ein busnesau drwy gynadleddau unigryw Archwilio Allforio Cymru yng Ngogledd a De Cymru.

Er mwyn helpu i feithrin gallu, rydym wedi gwella ein cymorth ar-lein i allforwyr drwy'r Hyb Allforio, ac mae ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol yn parhau i weithio gyda chwmnïau i feithrin eu gallu i allforio. Yn ystod y cyfnod hyd at ddiwedd mis Chwefror 2023, cynhaliwyd dros 1,200 o gyfarfodydd gyda chwmnïau i ddatblygu eu busnes allforio. Roedd chwe chlwstwr allforio gyda dros 280 o gwmnïau sy'n aelodau yn gwbl weithredol, yn datblygu gwybodaeth allforio busnesau, yn galluogi cymheiriaid i gael cymorth gan gymheiriaid ac yn adeiladu rhwydweithiau effeithiol mewn sectorau allweddol. Rydym wedi cefnogi dros 230 o brosiectau allforio drwy'r rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol, y rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol a'r rhaglen Ymweliadau Datblygu Busnes Dramor yn ogystal â darparu 24 o deithiau masnach tramor o San Francisco yn y gorllewin i Japan yn y dwyrain.

**36. Nodi deddfwriaeth newydd i sbarduno mwy o ailgylchu a llai o dirlenwi gan gynnwys, er enghraifft, estyn cyfrifoldebau cynhyrchwyr i gynnwys pob deunydd pacio.**

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad. Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y diwygiadau Ailgylchu yn y Gweithle. Bydd y rhain yn golygu ei bod yn rhaid i fusnesau, y cyhoedd a'r trydydd sector wahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu, yn yr un ffordd mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud yn eu cartrefi yng Nghymru yn barod. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o leihau gwastraff ymhellach yn ogystal â gwella ansawdd a nifer y deunyddiau y gellir eu hailgylchu, gan sicrhau arbedion carbon sylweddol, a manteision cadarnhaol i'r economi. Bydd y diwygiadau'n dod i rym ar 6 Ebrill 2024.

Mae cyflawni'r rhaglen waith i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cynnwys nifer o brosiectau cysylltiedig i sicrhau bod cynhyrchwyr yn dod yn gyfrifol am gostau gwaredu ac ailgylchu. Bydd hyn yn cymell lleihau gwastraff, ond hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Ar ôl cyhoeddi dyluniad terfynol y cynllun ym mis Mawrth 2022, ar y cyd â gwledydd eraill y DU, mae rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael ei chynnal i helpu busnesau i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pecynnu yn 2024/25

Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd dyluniad y Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd ym mis Mawrth 2023. Nod y Cynllun Dychwelyd Ernes fydd cynyddu faint o gynwysyddion diodydd sy'n cael eu hailgylchu, mynd i'r afael â thaflu sbwriel, a hybu ailddefnyddio.

Gweler pwynt 25 hefyd.

37. **Defnyddio’r Gronfa Economi Gylchol i helpu cwmnïau i gefnogi’r gwaith hwn.**

Cafodd Cronfa'r Economi Gylchol ei lansio’n wreiddiol ym mis Ebrill 2019 fel cynllun peilot gwerth £6.5m dros 3 blynedd i helpu Cymru i symud tuag at Economi Gylchol drwy fuddsoddi cyfalaf mewn offer. Daeth y gwaith o gyflwyno 3 blynedd peilot cyntaf y cynllun i ben ar 31ain Mawrth 2022.

Yn ystod y cyfnod hwn, datblygodd Cronfa’r Economi Gylchol yn ddeinamig i ymateb ac addasu i flaenoriaethau sy’n dod i’r amlwg a digwyddiadau arwyddocaol fel pandemig COVID-19. Roedd hyn wedi golygu ymestyn y cwmpas dros y tair blynedd. Er enghraifft, i gefnogi’r gwaith o gynhyrchu deunyddiau crai newydd sy’n deillio o ddeunydd eildro gwastraff (ee pelenni plastig), dyfarnwyd rhai grantiau i gwmnïau i gynhyrchu pelenni plastig o ansawdd uwch ac i wella ansawdd y deunydd eildro a ddefnyddir yn eu cynnyrch.  At ei gilydd, llwyddodd y gronfa i ddenu 114 o geisiadau gan fusnesau dros y cyfnod o dair blynedd. Cefnogwyd 21 o brosiectau yn dilyn proses asesu drylwyr yn erbyn gofynion y cynllun.

Gweler pwynt 25 hefyd.

38. **Hyrwyddo cyfleoedd newydd ar gyfer cyllid drwy raglenni llywodraeth y DU gan gynnwys yr IETF a Bargen y Sector Technoleg Ynni Gwynt ar y Môr.**

Mae’n bwysig cydnabod y rôl hollbwysig y mae Arloesi’n ei chwarae wrth drawsnewid i economi gylchol yn y maes gweithgynhyrchu. Mae strategaeth arloesi Llywodraeth Cymru, ‘Cymru’n Arloesi’ yn nodi: ‘mae symud i economi gylchol yw un o gyfleoedd diwydiannol mawr ein hoes’. Mae’r strategaeth yn amlinellu’r angen i gyfnewid deunyddiau carbon uchel sy’n defnyddio llawer o ynni am ddeunyddiau cynaliadwy, carbon isel, sy’n effeithlon o ran adnoddau.

39. **Cydweithio i hyrwyddo sefydliadau enghreifftiol, sydd wedi croesawu datgarboneiddio a defnyddio adnoddau’n effeithiol, gan rannu’r arferion gorau ledled Cymru er mwyn sicrhau “enillion” tymor byr**

Mae gennym lawer o fusnesau yma yng Nghymru sydd eisoes wrth galon newidiadau cadarnhaol mewn prosesau gweithgynhyrchu. Er enghraifft: Mae Seda UK yn y Coed-duon yn darparu atebion cynaliadwy i McDonald’s ymysg cwmnïau eraill; mae Mainetti yn Wrecsam yn ailddefnyddio ac yn ailweithgynhyrchu miliwn o hangers bob dydd ac yn ddiweddar agorodd Frugalpac gyfleuster gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru i gynhyrchu cwpanau coffi y gellir eu hailgylchu.

Mae WRAP wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau, astudiaethau achos, digwyddiadau ac wedi cyhoeddi erthyglau i hyrwyddo sefydliadau enghreifftiol, gan gynnwys y rheini a oedd wedi cymryd rhan yn ein pedwar treial cadwyn gyflenwi Defnyddio Cynnwys Eilgylch yn Arloesol | WRAP (wrapcymru.org.uk)

Mae astudiaethau achos hefyd wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer busnesau a gefnogwyd drwy Gronfa’r Economi Gylchol flaenorol ar gyfer busnesau. Mae’r gronfa’n cael ei gweinyddu gan WRAP: Y Gronfa Economi Gylchol: Astudiaeth Achos JC Moulding | WRAP (wrapcymru.org.uk)

**40. Gweithio gyda gweithgynhyrchwyr i ddeall y ffyrdd gorau i ddatgarboneiddio gan gynnwys ystyried technolegau fel hydrogen a CCUS.**

Ym mis Mawrth 2022 fe wnaethom gyhoeddi creu Diwydiant Sero Net Cymru a fydd yn sbarduno cydweithio hanfodol rhwng diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth i gyflymu ein taith tuag at Sero Net.

Bydd Diwydiant Sero Net Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith Clwstwr Diwydiannol De Cymru a lansiodd ei Gynllun ym mis Mawrth 2023. Mae'r cynllun yn benllanw gwaith helaeth dros ddwy flynedd sy'n cynnwys dros 30 o sefydliadau gan gynnwys Rockwool, RWE, Celsa Steel, Dragon LNG, ABP, Tata a Valero. Mae Cynllun y Clwstwr yn amlinellu gweledigaeth a phrif gamau sy'n cynnig y potensial i ddiwydiant newid i ddyfodol Sero Net. Byddwn yn gweithio drwy Diwydiant Sero Net Cymru i ddeall mwy am ganfyddiadau'r Cynllun Clwstwr a sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd ar y daith tuag at Sero Net.

**41. Cydweithio i hyrwyddo cyfleoedd i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ddefnyddio ein cyfleusterau a deunyddiau a gasglwyd i ailddefnyddio cynhyrchion ac i ail-weithgynhyrchu, a gweithgynhyrchu mwy o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.**

Fe wnaethom gyhoeddi *'Mwy nag Ailgylchu'* (Mawrth 21) - strategaeth i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru. Mae Cymru gyda'r gorau yn y byd o ran ailgylchu, ac rydym wedi cyhoeddi ein cyfradd uchaf erioed sef 65%.

**42. Cyflymu ein cydweithio â chwmnïau gweithgynhyrchu sydd â'r contract economaidd i ddeall beth maen nhw'n ei wneud i leihau eu hôl troed carbon.**

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cynllun Cymru Sero Net, bydd Busnes Cymru yn gweithio gyda busnesau yng Nghymru (yn enwedig busnesau bach a chanolig) i ymgorffori effeithlonrwydd ynni, defnyddio adnoddau'n effeithlon a thechnolegau carbon isel newydd yn eu mannau gwaith a'u cyfleusterau gweithgynhyrchu a datblygu ffyrdd newydd o weithio. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Contractau Economaidd a lofnodir.

**43. Cefnogi consortiwm o brifysgolion o Gymru a phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu cynigion ar gyfer buddsoddiadau strategol newydd ym meysydd craidd datblygu meddalwedd, deallusrwydd artiffisial, data a seiberddiogelwch gan greu Academi Meddalwedd Genedlaethol, Academi Seiberddiogelwch Genedlaethol newydd a'r Cyflymydd Cenedl Ddata.**

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru yn cydnabod sut gall awtomeiddio ac arloesi digidol greu cyfleoedd newydd i wella ein gwasanaethau cyhoeddus a helpu ein busnesau a'n heconomi i ffynnu.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, fe wnaeth Llywodraeth Cymru roi £500,000 ar gyfer Cyflymydd Cenedl Data Cymru. Roedd yn golygu bod modd cyflawni 22 prosiect 'carlam' profi cysyniad a oedd yn dangos sut gallai Cyflymydd Cenedl Data

Cymru weithredu ar raddfa genedlaethol a chynnig manteision ehangach i'n gwasanaethau cyhoeddus a'r economi.

Rydym nawr yn cefnogi Cyflymydd Cenedl Data Cymru i archwilio amrywiaeth o ffynonellau cyllid ar gyfer ei weithgareddau yn y dyfodol. Mae swyddogion eisoes wedi cydweithio â chydweithwyr yn y byd academaidd a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae hyn yn gysylltiedig â datblygu nifer o geisiadau AI i wahanol gyrff cyllido Llywodraeth y DU dros y misoedd diwethaf.

Rydym wedi dyfarnu buddsoddiad o £3 miliwn yn uniongyrchol yn yr **Hyb Arloesedd Seiber**. Mae hyn ochr yn ochr â £3 miliwn gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a £3 miliwn arall gan bartneriaid yr Hyb. Mae'r Hyb, sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Caerdydd, yn dod â phartneriaid diwydiant, llywodraeth, amddiffyn ac academaidd at ei gilydd i dyfu'r sector seiberddiogelwch yng Nghymru. Mae'n creu dull cydlynol o ymdrin â sgiliau, arloesi a menter newydd. Bydd yn hyfforddi dros 1,500 o unigolion sydd â sgiliau seiberddiogelwch, yn creu dros 25 o gwmnïau twf uchel, ac yn denu dros £20 miliwn o fuddsoddiad ecwiti preifat erbyn 2030.

**44. Alinio ymchwil i ddiogelwch data ag anghenion y diwydiant a helpu busnesau gweithgynhyrchu a phobl i fabwysiadu technolegau digidol wrth ailgynllunio swyddi drwy ganolfannau rhanbarthol.**

Mae gan weithgynhyrchu arwyddocâd strategol i Gymru. Cafodd ein Cynllun Gweithredu Seiber ei lansio ym mis Mai 2023. Mae'n cydnabod sut mae angen i wahanol sectorau ddeall sut mae seiber yn effeithio ar eu hamgylchiadau penodol ac i feithrin diwylliant o ymwybyddiaeth a pharodrwydd.

Mae'n nodi gweledigaeth glir bod Cymru'n ffynnu drwy seibergadernid, talent ac arloesedd. Mae'r Cynllun yn ymwneud â sut gall pobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus fod yn ddiogel ac yn gadarn mewn byd ar-lein modern. Mae'n datgan sut gall seiber, fel diwydiant y dyfodol, gefnogi twf ein heconomi.

Mae'r Cynllun yn cynnwys pedwar maes blaenoriaeth – datblygu ein hecosystem seiber, creu llif o dalent seiber, cryfhau ein seibergadernid a diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus.

Gweler pwyntiau 46,47,48, 49, 50 a 51 hefyd.

**45. Darparu cymorth drwy wella sgiliau a dysgu sgiliau newydd o ran ailgynllunio swyddi.**

Gweler pwyntiau 46,47,48, 49, 50 a 51.

**46. Gweithio'n agos gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i nodi blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd ar draws yr is-sectorau gweithgynhyrchu.**

Fe wnaethom gomisiynu'r pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gynhyrchu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau tair blynedd ar gyfer 2022-25. Mae'r rhain wedi'u

cwblhau ac ar gael ar-lein ar eu gwefannau. Mae'r cynlluniau'n nodi blaenoriaethau gweithgynhyrchu rhanbarthol. Bydd y cynlluniau'n cael eu diweddaru'n flynyddol hefyd a byddant yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2023.

**47. Parhau i adolygu fframwaith a llwybrau prentisiaethau i sicrhau eu bod yn cefnogi'r sector gweithgynhyrchu.**

Mae'r ddau bwynt uchod yn seiliedig ar waith y Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol sy'n casglu gwybodaeth helaeth am y farchnad lafur ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddiffinio'r gofynion sgiliau sy'n unigryw i bob rhan o Gymru. Mae pob un newydd adnewyddu ei gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd yn helpu i dargedu'r cynnig sgiliau ac addysg ehangach.

Mae fframweithiau a llwybrau prentisiaethau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y diwydiant. Ar gyfer 2023-24 rydym wedi trefnu datblygiad yn benodol ar gyfer Lefel 2 - Gwella Perfformiad Gweithredol a Lefelau 2 a 3 – Gweithgynhyrchu Prosesau.

**48. Sefydlu corff trosfwaol i gydlynu gweithgareddau STEM yng Nghymru a dod â rhanddeiliaid at ei gilydd.**

Mae'r corff hwn wedi cael ei sefydlu.

**49. Gweithio gyda Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau i ystyried a datblygu gwybodaeth am lwybrau gyrfa STEM er mwyn ysgogi diddordeb mewn gyrfaoedd gweithgynhyrchu yn unol â chanllawiau CWRE.**

Mae'r Bwrdd Cydraddoldeb mewn STEM, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn darparu cyfeiriad strategol i wella cydraddoldeb mewn astudiaethau a gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM yng Nghymru. Mae'r bwrdd yn goruchwylio'r is-grŵp Cydraddoldeb mewn Addysg STEM sydd â'r weledigaeth gyffredinol i Gymru fod yn wlad lle nad oes rhwystrau rhag manteisio ar gyfleoedd STEM ar bob lefel o addysg.

Er mwyn cefnogi ymwybyddiaeth a datblygiad gyrfa, mae Gyrfa Cymru (is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Lywodraeth Cymru) yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i arddangos byd gwaith i ysgolion.

Mae Gyrfa Cymru yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr, eu hathrawon ac, mewn llawer o achosion, eu rhieni, eu gwarcheidwaid a/neu eu gofalwyr, gyfarfod a rhyngweithio â chyflogwyr o amrywiaeth eang o sectorau. Mae'r cyfleoedd hyn yn caniatáu i gyflogwyr, gan gynnwys cyflogwyr STEM, ddarparu gwybodaeth ac ysbrydoliaeth o'r byd go iawn i ddarpar weithwyr, ac mae'n helpu i roi gwybodaeth, ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc am eu cyfleoedd gyrfa.

Mae Partneriaeth Addysg Busnes Gyrfa Cymru yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau, gan gynnwys:

- Ffeiriau gyrfaoedd
- Alumni

- Flogiau a fideos cyflogwyr
- Ymweliadau â safleoedd cyflogwyr
- Carwsel gyrfaoedd a diwrnodau rhwydweithio i gyflogwyr
- Gweithdai penodol (er enghraifft, awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau neu gyfweliadau ffug)

Mae Gyrfa Cymru yn gysylltiedig â phob ysgol uwchradd ar draws Cymru ac yn cefnogi rhwydwaith o gyflogwyr lleol sy'n datblygu'n gyson. Maent yn helpu i feithrin cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall er mwyn gwireddu'r manteision a amlinellir ar gyfer pawb dan sylw.

Mae gwefan Gyrfa Cymru yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys:

https://gyrfacymru.llyw.cymru/cynllunio-eich-gyrfa/nodweddion/wythnos-wyddoniaeth-prydain-2023

**50. Adeiladu ar y cysylltiadau presennol â diwydiant ac ysbrydoli gyrfaoedd i ddysgwyr o bob cefndir mewn addysg orfodol, drwy ddysgu am dechnolegau gweithgynhyrchu modern. Bydd hyn yn cynnwys pobl ag anableddau, menywod, pobl ifanc a lleiafrifoedd ethnig.**

Mae gwefan Gyrfa Cymru yn cynnwys ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i bob dysgwr o bob cefndir, gan gynnwys:

https://gyrfacymru.llyw.cymru/cynllunio-eich-gyrfa/nodweddion/wythnos-wyddoniaeth-prydain-2023

https://gyrfacymru.llyw.cymru/fy-nyfodol

Mae Gyrfa Cymru yn hwyluso ffeiriau gyrfaoedd mawr, gan gynnwys STEM, Dewis Eich Dyfodol, Cymraeg yn y Gweithle, Beth Nesaf ac Wythnos rithiol Darganfod Gyrfa, ar gyfer ysgolion cynradd (Chwefror) ac ysgolion uwchradd (Mehefin/Gorffennaf). Mae'r digwyddiadau hyn yn gallu cynnwys hyd at 50+ o gyflogwyr a 2,000 o bobl ifanc ac maent yn cynnwys cyflogwyr STEM.

**51. Adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud eisoes i greu rhaglen o ymweliadau â 'blociau' i ddysgu am dechnolegau gweithgynhyrchu modern, ac ymestyn y profiadau hyn y tu hwnt i bobl ifanc i athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd a rhieni.**

Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth yn rhoi cymorth i Sefydliadau Addysg Bellach ddod ag arbenigedd o bob rhan o'r sectorau technegol a galwedigaethol i gefnogi datblygu'r gweithlu addysgu. Mae hyn yn gallu cynnwys gweithdai, cyfresi o ddarlithoedd neu leoliadau gwaith. Y nod yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r gweithlu y tu hwnt i'r sgiliau sydd ganddynt yn barod i ddylanwadu ar y cwricwlwm a gwella datblygiad proffesiynol y gweithlu, a phrofiad a dealltwriaeth dysgwyr.

**52. Gwneud mwy i annog cyflogwyr i weld y manteision i'r busnes o gydweithio adeiladol a phartneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur, gan gydnabod cyfraniad hyn at wella ymroddiad a chynhyrchiant y gweithlu.**

Rydym wedi cynhyrchu canllaw byr Llywodraeth Cymru sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am beth mae gwaith teg yn ei olygu'n ymarferol; pam mae hyrwyddo gwaith teg o fudd i sefydliadau, i weithwyr ac i lesiant yn ehangach; a sut gall sefydliadau roi gwaith teg ar waith.

**53. Sicrhau bod gwaith teg yn cael ei ystyried mewn gwaith cydweithredol rhwng y llywodraeth, diwydiant, undebau llafur a'r byd academaidd.**

Gweler pwynt 57.

**54. Hyrwyddo'r contract economaidd a'r cod ymarfer ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi ym mhob gweithgaredd caffael.**

Bydd Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sydd bellach wedi bod drwy'r broses o graffu deddfwriaethol yn y Senedd, yn cael effaith anuniongyrchol ar weithgynhyrchwyr yng Nghymru, yn bennaf drwy ei ddyletswyddau caffael cymdeithasol cyfrifol. Mae cysylltiad agos rhwng y dyletswyddau caffael a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn canolbwyntio'n benodol ar reoli contractau a rheoli'r gadwyn gyflenwi.

**55. Defnyddio bob lifer sydd ar gael i hyrwyddo canlyniadau gwaith teg ar draws y sector gweithgynhyrchu.**

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu rheoliadau a chanllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth. Rydym yn cydnabod bod cyflogwyr yn cystadlu i recriwtio, datblygu a chadw'r gweithlu sydd ei angen arnynt. Mae gwaith teg yn rhan bwysig o'r ymdrech honno i unrhyw fusnes. Mae rhan o hynny'n gofyn am ymrwymiad gwirioneddol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu ac i ddefnyddio'r Gymraeg.

**56. Disgwyl i bob cwmni sy'n derbyn cyllid drwy gontractau a grantiau ymrwymo i'r cod ymarfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi.**

Yn ogystal â'r cannoedd o fusnesau sydd wedi ymgysylltu â ni yn y Contract Economaidd hyd yma, mae dros 400 o gyflogwyr wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae llofnodwyr y Cod yn cytuno i gydymffurfio â'i ymrwymiadau i gefnogi arferion cyflogaeth foesegol a mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Rydym yn dymuno codi ymwybyddiaeth o'r Cod ac annog cynifer o fusnesau gweithgynhyrchu â phosibl i fod yn llofnodwyr er mwyn gallu teimlo'r manteision ar draws eu cadwyni cyflenwi.

**57. Gweithio gyda diwydiant ac undebau llafur i nodi, hyrwyddo a rhannu astudiaethau achos o'r arferion gwaith teg gorau, yn enwedig y rhai sy'n dangos cysylltiad rhwng gwaith teg a gwell perfformiad busnes.**

Yn gynharach eleni, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad cynnydd gwaith teg (dolen isod) ac mae llawer o'r camau rydym yn eu cymryd yn berthnasol i'r sector gweithgynhyrchu.  Rydym yn dal i ddefnyddio'r Contract Economaidd fel adnodd cysylltiadau busnes pwysig sy'n ymdrin â gwahanol fathau o ymddygiad busnes cyfrifol sy'n cynnwys gwaith teg.

Rydym yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo ein Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.  Mae'r Cod yn cynnwys 12 ymrwymiad sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag arferion anfoesol ac anghyfreithlon fel cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gontractau dim oriau, yn ogystal ag ystyried talu'r cyflog byw gwirioneddol.  Mae dros 500 o sefydliadau o amrywiaeth o sectorau wedi ymrwymo i'r Cod.

Yn ogystal â'r achos moesegol a llesiant dros waith teg, rydym hefyd yn awyddus i hyrwyddo'r manteision busnes.  Mae arnom eisiau hyrwyddo gwaith teg drwy fodelau rôl gweithgynhyrchu cryf ac astudiaethau achos cymhellol ac ysbrydoledig sy'n arddangos gwaith teg i'r sector a thu hwnt. Mae hwn yn faes rydym yn benderfynol ein bod am ei symud ymlaen yn ystod y flwyddyn hon.

Argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg: adroddiad cynnydd 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU

**58. Ymgysylltu â'r sector i ddeall y math o gymorth busnes sydd ei angen ar weithgynhyrchu yng Nghymru.**

Mae Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i helpu unigolion i ddatblygu cyfleoedd i gychwyn busnes, ynghyd â chymorth i entrepreneuriaid, microfusnesau a busnesau bach a chanolig ddatblygu eu harferion busnes, gwella cynhyrchiant ac ysgogi twf busnes, mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy.

Ers 2016, mae Busnes Cymru wedi cefnogi dros 6,500 o unigolion i ddechrau busnes ac wedi helpu busnesau presennol i greu dros 30,000 o swyddi. Mae 16% ohonynt yn dod o dan y categori sectorau gweithgynhyrchu uwch a gweithgynhyrchu bwyd. Drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a chymorth cyflogaeth a chydraddoldeb, mae 4,700 o fusnesau wedi gwella arferion neu wedi mabwysiadu dulliau newydd o ymdrin â chynaliadwyedd a chydraddoldeb.

Ym mis Mai 2018, fe wnaethom lansio Cronfa Dyfodol yr Economi a oedd yn cyfuno nifer o gynlluniau cyllido a oedd eisoes yn bodoli mewn un gronfa i gynnig dull gweithredu cyson. Roedd yn symleiddio'r broses i fusnesau ac yn caniatáu inni fod yn fwy hyblyg o ran sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni er mwyn diwallu anghenion busnes yn y ffordd orau bosibl.

**59. Trafod contractau economaidd yn y sector gweithgynhyrchu i angori cwmnïau'n well yng Nghymru, sy'n gysylltiedig â thaith 4.0 Cymru.**

Ein Contract Economaidd yw conglfaen cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau Cymru o hyd. Mae'r Contract yn seiliedig ar ein Cenhadaeth Economaidd ac mae'n ceisio hybu arferion busnes cymdeithasol gyfrifol.

Rydym yn parhau i wella'r Contract ac yn ei wneud yn arf mwy pwerus a gwerthfawr byth i hybu gwerth cymdeithasol o fuddsoddiad cyhoeddus. Cyflwynwyd Contract Economaidd diwygiedig ym mis Ionawr 2022 gyda diwygiadau i'r pedair colofn allweddol sy'n cefnogi ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer economi llesiant. Rhaid i fusnesau sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru ddarparu manylion am y camau byddant yn eu cymryd i gefnogi ein hamcanion ehangach er budd Cymru gyfan ar

draws y pedwar piler: cryfder economaidd a'r gallu i addasu; gwaith teg; hyrwyddo llesiant a charbon isel a chydnerthedd hinsawdd.

**60. Cadw cydbwysedd rhwng twf organig a mewnfuddsoddiad sy'n annog cwmnïau i symud eu swyddogaethau penderfynu i'w cyfleusterau yng Nghymru.**

Rydym yn parhau i gefnogi cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr rhyngwladol fel Tata ac Airbus ar yr un pryd ag annog a helpu busnesau lleol llai.

Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yn nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer ein heconomïau rhanbarthol, gan dynnu sylw at ein cryfderau rhanbarthol a'n hasedau allweddol fel sbardunau ar gyfer twf cynaliadwy. Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol drafft De-ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys Dwyrain Casnewydd, wedi nodi bod datblygu clystyrau twf allweddol yn flaenoriaeth gan gynnwys lled-ddargludyddion yn y de-ddwyrain. Yng Ngogledd Cymru, mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn sail i'n hymgysylltiad â diwydiant gan ganolbwyntio ar brosiectau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio o ganlyniad i nifer o fuddsoddiadau mawr arfaethedig yn y sectorau ynni gwynt ar y môr, ynni'r llanw ac ynni hydrogen sy'n digwydd yn y rhanbarth.

Mae gan y Banc Datblygu enw da am gefnogi a gweithio gyda'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae'r banc yn gweithredu amrywiaeth eang o gronfeydd sy'n berthnasol i fusnesau ar wahanol gamau yn eu datblygiad a'u twf, a gall ddarparu benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti sy'n amrywio o £1,000 i £10 miliwn a chyda hyd at 15 mlynedd o gyfnod ad-dalu. Yn y cynnig hwn, mae'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn cynnig pecyn cymorth i alluogi busnesau Cymru i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni a gweithredu ar ddatgarboneiddio. Ers 2018, mae'r banc wedi gwneud dros 320 o fuddsoddiadau penodol mewn cwmnïau gweithgynhyrchu sy'n werth dros £62m, gan greu neu ddiogelu dros 4,300 o swyddi.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon